Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
National Offender Management Service

Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf

Ymateb i'r Ymgynghoriad

CP(R) 06/08

Cyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2008



Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
National Offender Management Service

Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: www.justice.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	3
Cefndir	4
Crynodeb o ymatebion	5
Ymatebion i gwestiynau penodol	8
Casgliad a'r camau nesaf	24
Asesiad Effaith:	28
Manylion Cyswllt y Cydlynydd Ymgynghoriad	55
Y meini prawf ymgynghori	56
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr	57

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghorol, Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf [CP 06/08].

Bydd yn trafod:

- y cefndir i'r adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghorol drwy gysylltu â **Jon Neville** yn y cyfeiriad isod:

Commercial and Competitions Unit
The Ministry of Justice
Third Floor – SW Quarter, Fry Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ffôn: 020 7035 4930

Ffacs 020 7035 4844 (f.a.o. Jon Neville)

Ebost: bestvalueconsultation@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth: www.justice.gov.uk.

Gellir gwneud cais am fersiynau mewn fformat amgen o'r cyhoeddiad hwn gan bestvalueconsultation@justice.gsi.gov.uk neu 020 7035 4930.

Cefndir

Cyhoeddodd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ) "*Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf*", papur ymgynghorol CP 06/08, ar 9 Ebrill 2008. Parhaodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos, gan ddod i ben ar 2 Gorffennaf 2008. Gwnaeth y papur hwn ymgais i dderbyn safbwyntiau gan yr holl bartïon â diddordeb ynghylch y cynigion yr oedd yn ei nodi ar gyfer sut y dylai'r drefn Gwerth Gorau yn y gwasanaeth prawf weithio.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys y modd y dylanwadodd y broses ymgynghori ar ffurf derfynol/datblygiad pellach y polisi/cynnig yr ymgynghorwyd arno.

Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb o ymatebion

Cyhoeddwyd y papur ymgynghorol ar wefannau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), drwy sianelau NPS mewnol a Rhwydwaith Darparwr Cenedlaethol NOMS. Gyrrwyd negeseuon at 143 o sefydliadau'n eu gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad.

Trefnodd y MOJ ddau gyfarfod agored yn Llundain a Leeds i gyflwyno'r ymgynghoriad Gwerth Gorau ac annog trafodaeth. Mynychodd cyfanswm o 46 o gynrychiolwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth prawf, y trydydd sector, y sector preifat ac undebau llafur y gwasanaeth prawf a chymdeithasau staff.

Trafodwyd rhychwant o themâu yn y ddau gyfarfod agored, gan gynnwys gwerth adeiladu ar adolygiadau gwasanaeth y mae ardaloedd/ rhanbarthau eisoes wedi ymgymryd â nhw, yr angen am gyfarwyddyd clir yn enwedig ar gostau; a'r angen i gydlynu adolygiadau'n rhanbarthol i rannu adnoddau a sgiliau er mwyn gwneud gweithrediad yn haws. Yn nhermau proses, roedd cefnogaeth ar gyfer manylebau cenedlaethol er mwyn cael cysondeb. Roedd hefyd gefnogaeth i ffocws cychwynnol ar adolygiadau Gwerth Gorau ar raddfa gweddol fawr, efallai'n cynnwys ymyraethau. Roedd annibyniaeth a thryloywder hefyd yn cael eu hystyried yn hanfodol a chynigwyd y dylai cyfarwyddwyr rhanbarthol[1] Asiantaeth NOMS chwarae rôl flaenllaw mewn ymgymryd ag asesiadau o ganlyniadau'r adolygiadau, gydag ymgysylltiad y trydydd sector a'r sector preifat.

Cysylltodd swyddogion Y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd gyda chynrychiolwyr o'r sector preifat drwy'r CBI, trydydd sector, undebau llafur y gwasanaeth prawf a chymdeithasau staff i gynnig cyfle iddynt drafod Gwerth Gorau. Cyfarfu swyddogion MOJ gyda chynrychiolwyr o Addaction, Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO), y CBI, Clinks a'r Rhwydwaith Staff Anabl Cenedlaethol sy'n cynrychioli'r gwasanaeth prawf a CAFCASS.

I gefnogi datblygiad Gwerth Gorau, ffurfiodd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder dasglu Trydydd Sector ar Werth Gorau yn y gwasanaeth prawf. Bydd allbynnau'r tasglu'n cael eu hystyried ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn wrth ddiweddaru'r fframwaith gwerth gorau.

---

[1] Ar gyfer pwrpasau rheoli troseddwyr (gwasanaeth prawf a charchardai), mae Lloegr a Chymru wedi'u rhannu'n ddeg uned – naw rhanbarth Seisnig, a Chymru. Yng ngweddill y ddogfen hon, er symlrwydd, cyfeirir at y deg fel 'rhanbarthau', er nad yw Cymru yn rhanbarth. Mae newidiadau cyfredol i strwythur Asiantaeth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yn golygu bod llywodraethiad y rhanbarthau hyn yn newid, ond byddant i gyd ymhen amser yn symud i gael eu harwain gan Gyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr rhanbarthol. Bydd gweddill y ddogfen hon yn cyfeirio at gyfarwyddwyr rhanbarthol.

Cafwyd 73 o ymatebion ysgrifenedig i gyd, yn cynrychioli safbwyntiau rhychwant eang o randdeiliaid drwy'r sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A.

Daeth y nifer fwyaf o ymatebion (29) gan y gwasanaeth prawf ei hun. Y trydydd sector oedd â'r ail fwyaf o ymatebion (16). Roedd ymatebion a ddynodwyd yn rhai fel 'arall' yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, y farnwriaeth, llywodraeth leol a chyrff sector cyhoeddus eraill.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys holiadur wedi'i fformatio i ymatebwyr allu cofnodi eu safbwyntiau; ni ddefnyddiodd 23 ohonynt yr holiadur safonol hwn ond yn hytrach mabwysiadu fformat arall. Ble gellid cydweddu atebion o'r fath yn erbyn cwestiwn penodol cawsant eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r cwestiwn hwnnw. Cafodd yr holl sylwadau eraill eu cynnwys yng Nghwestiwn 16 – sef y rhan sylwadau cyffredinol.

Roedd Cwestiynau 2, 3 a 4 yn benodol yn ceisio safbwyntiau gan y rheiny oedd wedi ateb Cwestiwn 1, ac roedd Cwestiwn 7 ceisio safbwyntiau'r rheiny oedd wedi ateb Cwestiwn 6. Fodd bynnag, dewisodd rhai ymatebwyr ateb y cwestiwn waeth beth oedd eu hateb i Gwestiwn 1 neu 6. Cafodd y pleidleisiau hyn eu cyfrif.

I gadw'r ganran o gyfrifiadau'n gyson, mae'r holl ganrannau wedi'u cyfrifo gan defnyddio'r cyfanswm nifer o ymatebion (sef 73) yn hytrach na'r nifer o ymatebwyr a ddewisodd roi sylw i'r cwestiwn unigol.

Rydym yn ddiolchgar am yr holl ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac rydym wedi cynhyrchu'r papur hwn i adlewyrchu'r safbwyntiau a gyflwynwyd.



Dangosodd y canfyddiadau bod yr egwyddorion tu ôl i Werth Gorau yn cael eu cefnogi'n gyffredinol er y mynegwyd rhychwant o safbwyntiau ynghylch sut i weithredu'r broses.

Roedd nifer o ymatebwyr gwasanaeth prawf yn bendant o'r farn y dylid mabwysiadu dull datganoledig (lleol/rhanbarthol) ar gyfer dewis gwasanaethau i'w hadolygu o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na bod Asiantaeth NOMS yn eu dewis i ddechrau. Hefyd, roedd yn well gan rai o'r ymatebwyr gwasanaeth prawf hynny broses gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ardal, yn hytrach na phroses ranbarthol.

Roedd pryderon yn cynnwys: gorbwyslais canfyddedig ar gost yn hytrach nag ar ansawdd darpariaeth y gwasanaeth; y goblygiadau adnoddau o gyflenwi'r adolygiadau Gwerth Gorau yn enwedig yn nhermau'r posibilrwydd y bydd costau'n gorbwyso'r buddiannau yn achos yr asesiad effaith; yr angen i ymestyn y cyfarwyddyd ar y dull y bydd y broses Gwerth Gorau yn gweithio o dan y 5 'Cs,' yn enwedig "cydweithio" ac "ymgynghori" a sut byddai'r trydydd sector yn cyfrannu at y broses.

Mynegodd lleiafrif bach anfodlonrwydd gyda'r modd y cyflwynwyd y cynigion gan eu bod yn teimlo nad oedd fawr o sgôp yn y papur i wrthwynebu. Fodd bynnag, croesawodd y mwyafrif y cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion a chyfrannu at ddatblygiad y fframwaith Gwerth Gorau.

Ymatebion i gwestiynau penodol

1. A ydych yn cytuno mai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, ar ran Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ddylai ar y cychwyn ddewis y gwasanaethau sydd i'w hadolygu gan yr ardaloedd prawf dros dair blynedd? A oes gennych unrhyw sylwadau ar hyn?

Roedd yr ymateb cyffredinol i Gwestiwn 1 yn bositif. Cytunodd 41% o ymatebwyr, anghytunodd 29% a dewisodd 30% atal neu beidio rhoi ateb i'r cwestiwn hwn. Y cynnig hwn oedd y lleiaf poblogaidd gydag ymatebwyr o'r gwasanaeth prawf. Roedd 59% o ymatebwyr o'r gwasanaeth prawf yn anghytuno y dylai Asiantaeth NOMS ddewis y gwasanaethau i'w hadolygu dros dair blynedd. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o ymatebwyr o'r trydydd sector a'r sector preifat yn cytuno â'r cynnig.



Meddyliwyd yn gyffredinol y byddai hyn yn galluogi'r ganolfan i osod y cyfeiriad ar gyfer gwaith yn y dyfodol a gyrru'r broses ddewis ymlaen er mwyn casglu momentwm cyn rhoi'r rhyddid i'r ardaloedd prawf gytuno â'r cyfarwyddwyr rhanbarthol pa wasanaethau y dymunent eu hadolygu i ymdrin â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, fel rhan o ddull datganoledig. Awgrymwyd pe byddai'r dull arfaethedig yn cael ei fabwysiadu, y gwasanaethau cyntaf y dylid eu hadolygu fyddai'r rheiny sydd ddigon mawr i ganiatáu casglu data cadarn, er mwyn galluogi cymhariaeth a meincnodi ardaloedd.

Tra'r oedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r angen i allu cymharu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, roedd rhai'n amau nad rhaglen genedlaethol oedd y modd gorau o gyflawni hyn. Roedd rhai'n teimlo y byddai'r dull hwn yn rhy ragnodol

a biwrocrataidd, yn arwain at gynnydd mewn costau cydymffurfio, oedi ac arafu arloesi.

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylai Asiantaeth NOMS rymuso ardaloedd neu ranbarthau o'r cychwyn i benderfynu pa wasanaethau i'w hadolygu yn seiliedig ar eu gwybodaeth leol; y dylai'r blaenoriaethau ar gyfer gwneud hynny gael eu pennu wrth ystyried amodau ac anghenion lleol; ac y byddai dewis gwasanaethau i'w hadolygu'n ganolog yn gostwng hyblygrwydd lleol ac yn methu cymryd i ystyriaeth y newidiadau lleol neu adolygiadau hynny sydd wedi'u gweithredu.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r byrddau prawf lleol a chynrychiolwyr y trydydd sector a sector preifat gael eu dwyn i mewn i'r broses ddewis i sicrhau mai'r gwasanaethau sy'n cael eu dewis yw'r rhai mwyaf addas i gyflenwi'r amcanion strategol a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gydag ymwybyddiaeth o oblygiadau adnoddau ar gyfer eu cyflenwi.



2. Os ydych yn cytuno â chwestiwn 1, faint o wasanaethau ydych chi'n meddwl ddylai gael ei hadolygu ym mhob blwyddyn y rhaglen?

Bu i'r mwyafrif o ymatebwyr (55%) atal neu beidio gwneud sylw ar y cwestiwn hwn. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod y cwestiwn wedi'i gyfeirio at y rheiny a oedd yn cytuno â chwestiwn 1, ond dewisodd rhai cyfranogwyr ateb y cwestiwn hwn waeth sut roeddent wedi ymateb i Gwestiwn 1. O'r rheiny a roddodd ateb rhifiadol roedd 15% yn teimlo na ddylai mwy na dau wasanaeth gael eu hadolygu ym mhob blwyddyn o'r rhaglen oherwydd eu bod yn teimlo y gallai llai o adolygiadau, gydag amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer gwerthusiad, gynhyrchu gwell canlyniadau. Dadleuwyd hefyd y byddai cynnal

mwy o adolygiadau yn golygu perygl o ddargyfeirio adnoddau ac arbenigedd staff, ac o bosib danseilio gallu'r ardaloedd lleol i gyflenwi gwasanaethau craidd.

Fodd bynnag, dadleuodd un ymatebydd gan fod Gwerth Gorau wedi'i fwriadu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cost cyflenwi gwasanaeth, dylid adolygu a meincnodi gymaint o wasanaethau â phosib.

Roedd nifer o ymatebwyr yn meddwl y byddai penderfynu faint o wasanaethau i'w hadolygu bob blwyddyn yn dibynnu ar ffactorau eraill megis maint a math y gwasanaeth, y diffiniad o 'wasanaeth' a materion cynhwysedd cyffredinol. Er enghraifft, awgrymwyd y byddai gweithgaredd megis ymyrraeth alcohol neu gyswllt dioddefwyr yn cymryd gymaint o adnoddau â, dyweder, meysydd gweithgaredd ehangach megis gwaith di-dâl a rheoli troseddwyr.

3. Os ydych yn cytuno gyda chwestiwn 1, a ydych yn cytuno y dylid dewis y gwasanaethau i'w hadolygu ar sail:

i. Pwysigrwydd strategol y gwasanaeth?

ii. Y potensial i gynyddu effeithiolrwydd y gwasanaeth?

iii. Y potensial i gynyddu effeithlonrwydd y gwasanaeth?

iv. Cynhwysedd y byrddau ac ymddiriedolaethau i adolygu'r gwasanaeth?

v. Buddiannau'r adolygiad yn gorbwyso'r costau?

vi. Ac a ydych yn credu bod unrhyw feini prawf eraill y dylid eu hystyried?

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, er ei fod wedi'i gyfeirio at y rheiny oedd yn cytuno gyda chwestiwn 1, atebodd rhai er nad oeddent wedi cytuno gyda'r cwestiwn hwnnw. Cafodd yr ymatebion hyn eu cyfrif er gwaethaf hynny.

Yr opsiynau mwyaf poblogaidd oedd ii) a iii) gyda'r ddau yn derbyn 36 pleidlais (49%). Opsiwn iv) oedd y lleiaf poblogaidd yn derbyn dim ond 21 pleidlais (29%). Soniodd mwy nag un ymatebydd na ddylai (iv) - sef cynhwysedd y byrddau ac ymddiriedolaethau i gynnal adolygiad fel rheol gael ei dderbyn fel rheswm i beidio adolygu gwasanaeth, oherwydd dylid tybio eu bod yn alluog i adolygu eu gwasanaethau. Awgrymwyd hefyd y dylai gwella gwasanaethau i ddioddefwyr ffurfio rhan integrol o'r adolygiad.

O dan opsiwn vi) gofynnwyd i ymatebwyr pa feini prawf eraill fyddent yn hoffi eu gweld yn cael ystyriaeth wrth ddewis gwasanaethau i'w hadolygu. Roedd y meini prawf a awgrymwyd yn cynnwys: effaith y gwasanaeth ar ostwng aildroseddu ac ar ddiogelwch cyhoeddus; pwysigrwydd y gwasanaethau i lysoedd lleol; gwella gwasanaethau er budd dioddefwyr; ystyried rhoi ar gontract allanol i'r sectorau gwirfoddol a phreifat; ac archwiliad o ddull nad yw'n benodol-gwasanaeth prawf i wasanaethau.

Ailadroddodd rhai ymatebwyr bwyntiau a wnaethant yn eu hatebion i gwestiwn 1. Er enghraifft, roedd Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Mawrhydi yn ystyried y dylai'r penderfyniad i ddewis gwasanaethau i'w hadolygu gael ei wneud gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau ar lefel leol yn hytrach na chenedlaethol oherwydd bod rhaid penderfynu ar flaenoriaethau wrth ystyried amodau ac anghenion lleol.

Roedd TMS Insight yn ystyried y dylai rhanddeiliaid eraill sy'n cyfrannu'n effeithiol tuag at leihau graddfeydd aildroseddu gael llais a bod yn rhan o'r broses ddethol, ac y dylai pob gwasanaeth gael ei adolygu, heb unrhyw faes yn cael ei eithrio.

4. Os ydych yn cytuno â chwestiwn 1, pa wasanaethau a ddylid eu hadolygu yn y flwyddyn gyntaf yn eich tyb chi, a pha rai y dylid eu hadolygu yn yr ail flwyddyn?

Er ei fod wedi'i gyfeirio at y rheiny oedd yn cytuno gyda chwestiwn 1, dewisodd rhai cyfranogwyr ateb y cwestiwn hwn er gwaethaf eu hateb blaenorol. Cafodd yr ymatebion hyn eu cyfrif er gwaethaf hynny.

Ble y gwnaethpwyd ond un awgrym o wasanaeth cafodd ei gyfrif fel gwasanaeth i'w adolygu yn y flwyddyn gyntaf. Ble'r awgrymwyd nifer o wasanaethau ond heb nodi a ddylent gael eu hadolygu yn y flwyddyn gyntaf ynteu'r ail, cawsant hefyd eu cyfrif o fewn y pleidleisiau ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Awgrymodd llawer llai o ymatebwyr (16 allan o 73) wasanaethau i'w hadolygu yn yr ail flwyddyn. Roedd 49 hefyd heb ateb y cwestiwn hwn. Dangosir y gwasanaethau a awgrymwyd yn yr ymatebion yn y siartiau isod.


Ymateb i Gwestiwn 4: Pa wasanaethau ddylid eu hadolygu yn y flwyddyn gyntaf?
Gwaith di-dâl
11
Rhaglenni achrededig
6
Adeiladau / hosteli cymeradwy
4
Rhaglenni alcohol a chysylltiedig â sylweddau
3
Gwasanaethau a rhaglenni sy'n ymwneud â dioddefwyr
3
Ymyraethau
2
Cymorth / gwasanaethau cyflogaeth
2
Llety
2
Torri cosbau cymunedol
1
Goruchwyliaeth
1
Asesiad risg
1
Ansawdd data
1
Rheoli troseddwyr
1
Swyddogaethau cefn swyddfa
1
Dysg a sgiliau
1
Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE)
1
Gwasanaethau haen is
1
Gwasanaethau bach
1
0
2
4
6
8
10
12
Nifer o bleidleisiau



O'r ymatebwyr hynny a nododd eu bod yn ffafrio adolygu gwasanaethau ym Mlwyddyn 1, cytunodd 11 y dylid ymdrin â gwaith di-dâl yn gyntaf, yna'r rhaglenni achrededig (6 pleidlais) ac adeiladau/hosteli cymeradwy (4 pleidlais). Ym mlwyddyn 2, y rhaglenni'n ymwneud â chamddefnydd alcohol a sylweddau oedd y dewisiadau mwyaf poblogaidd (5 pleidlais), wedi'u dilyn gan waith di-dâl (4 pleidlais) a rhaglenni achrededig (3 pleidlais).

Dewisodd rhai ymatebwyr wasanaethau ond nid blwyddyn benodol ar gyfer eu hadolygu. Er enghraifft, cynigiodd Serco y dylid adolygu gwasanaethau megis gwaith di-dâl yn y ddwy flynedd gyntaf oherwydd eu bod yn gweithredu ym

mhob ardal gwasanaeth prawf ac yn llai cynhennus na gwasanaethau eraill.

Awgrymodd rhai ymatebwyr ddulliau eraill, er enghraifft, y dylai cyflenwad ymyraethau gael ei adolygu ym mlwyddyn 1 ac y dylai'r dewis gymryd i ystyriaeth amcanion strategol Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn enwedig mewn perthynas â gostwng aildroseddu. Awgrymodd un arall y byddai'n gymorth i ymgynghori gydag ardaloedd lleol ac i ganolbwyntio ar wasanaethau ble mae problemau, wrth ddewis pa un i'w adolygu.

5. A ydych chi'n cytuno y dylai NOMS, ynghyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyflwyno manylebau gwasanaeth cenedlaethol ar berfformiad, economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar gyfer y gwasanaethau i'w hadolygu?

Cytunodd 64% o ymatebwyr y dylai asiantaeth NOMS, gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyflwyno manylebau gwasanaeth cenedlaethol ar berfformiad, economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar gyfer y gwasanaethau i'w hadolygu. Dim ond 3% oedd yn anghytuno ond ni wnaeth 33% o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Roedd Ardal Gwasanaeth Prawf Swydd Gaerloyw yn teimlo y dylai'r manylebau ddarparu gwaelodlin gyda safonau'n trafod gwerth am arian, ansawdd a meini prawf rhanddeiliaid. Dadleuodd Ardal Gwasanaeth Prawf Swydd Stafford bod sefydlu'r nodweddion dylunio sylfaenol, nodweddion perfformiad allweddol ac ansawdd gwasanaethau i'w hadolygu, yn angenrheidiol i sefydlu sut y bydd gwasanaeth 'Gorau yn y Dosbarth' yn edrych, ac i ddarparu gwaelodlin ar gyfer adolygiadau a meincnodi.

Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r manylebau fod yn seiliedig ar ganlyniad yn hytrach na mewnbwn er mwyn annog hyblygrwydd ac arloesiad lleol. Er enghraifft, dadleuodd Serco y dylai'r manylebau ddisgrifio'r amcan i'w gyflawni yn hytrach na sut i'w gyflawni. Cefnogodd NACRO safon genedlaethol i sicrhau cysondeb ond heb fod yn rhy ragnodol fel ei fod yn atal arloesiad a'r hyblygrwydd i ddelio gyda materion lleol neu ranbarthol.

6. A ydych yn cytuno gyda'r dyhead i symud dros amser at fodel mwy datganoledig, gyda rhanbarthau'n cytuno ag ardaloedd prawf pa wasanaethau i'w hadolygu yn y rhanbarth, gan ystyried cyfarwyddyd cenedlaethol ar sut i wneud y dewisiadau?

Cytunodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (52%) gyda'r symudiad dros amser at fodel datganoledig. Dim ond 16% oedd yn anghytuno a 32% yn atal neu ddim yn gwneud sylw. O fewn y pleidleisiau o'r gwasanaeth prawf, roedd 66% yn cytuno gyda'r symudiad i fodel datganoledig, 24% yn anghytuno a 10% yn atal.

Roedd sawl ymatebydd a oedd yn ystyried y dyhead hwn yn bositif yn teimlo y byddai symudiad o'r fath yn caniatáu gwneud gwell cysylltiadau o fewn y gymuned leol drwy gynyddu cyfathrebu rhwng partneriaid lleol o'r trydydd sector a'r sector preifat. Er enghraifft, roedd Addaction yn teimlo bod gwneud darpariaeth gwasanaeth yn fwy lleol yn gyson gyda mentrau Llywodraeth eraill

ac y byddai hyn yn debygol o gael y ‘prynu i mewn’ uchaf oddi wrth randdeiliaid lleol.

Roedd nifer o ymatebwyr yn ystyried na ddylai datganoli ddigwydd hyd nes bo’r rhaglen genedlaethol wedi'i gwerthuso a gwersi wedi'u dysgu. Fodd bynnag, dadleuwyd hefyd y dylai datganoli ddigwydd mor sydyn â phosib neu y dylid mabwysiadu model rhanbarthol o'r cychwyn cyntaf.

7. Os ydych yn cytuno â chwestiwn 6, pryd fyddai'n adeg briodol i symud tuag at fodel mwy datganoledig yn eich tyb chi?

Er ei fod wedi'i gyfeirio at ymatebwyr oedd wedi cytuno gyda chwestiwn 6, dewisodd rhai ateb y cwestiwn hwn waeth beth oedd eu hateb blaenorol.

Atebodd 37 o ymatebwyr (51%) y cwestiwn hwn. Ni wnaeth nifer sydd bron yn gyfartal, 36 (49%) ateb y cwestiwn neu wneud sylw. Mae'r siart isod yn darparu manylion o'r atebion.



Yr amser mwyaf poblogaidd o wneud symudiad at fodel datganoledig oedd (o 13 ymateb -18% o'r holl 73 o ymatebwyr) yn syth ac o gychwyn yr adolygiadau.

Dewisodd bron i ddwywaith fwy o ymatebwyr (24, 33% o'r cyfanswm) opsiynau eraill. Roedd 14 o'r rhain (19%) yn dewis symud at fodel datganoledig ym mlynyddoedd 2 i 4, a 6 (8%) o'r ymatebwyr yn dewis blwyddyn 3. Bu i 10 o ymatebwyr (14%) wneud eu hatebion yn ddibynnol ar ffactorau eraill er enghraifft roedd un yn ystyried mai dim ond ar ôl datblygu manylebau cenedlaethol y dylai symudiad ddigwydd.

Ymatebwyr o'r Gwasanaeth Prawf oedd fwyaf clir ynghylch yr opsiynau yr oeddent yn eu ffafrio. Roedd ychydig yn llai na hanner (41%) o ymatebwyr gwasanaeth prawf yn ffafrio symud yn syth at fodel datganoledig tra bod 10 (34%) yn ffafrio pwynt diweddarach neu'n dadlau fod ffactorau eraill yn bwysig cyn penderfynu ar y pwynt symud at fodel datganoledig, ac ymataliodd 7 (24%). Bu i gyfradd llawer uwch o ymatebwyr eraill atal neu wneud dim sylw ynghylch y pwynt priodol i symud tuag at fodel datganoledig.

8. A ydych chi'n cytuno y dylai rhanbarthau NOMS:

i. Gydlynu'r adolygiadau a gynhelir gan yr ardaloedd prawf yn eu rhanbarth gan sicrhau eu bod yn digwydd ar adegau tebyg i'w gilydd?

Roedd dros hanner yr holl ymatebwyr (52%) yn cytuno y dylai asiantaeth NOMS gydlynu'r adolygiadau a wnaethpwyd gan yr ardaloedd prawf yn eu rhanbarth, yn sicrhau eu bod yn digwydd ar amseroedd tebyg. Anghytunodd 15%, gyda 33% o ymatebwyr yn atal neu'n gwneud dim sylwadau ar y pwnc hwn. Roedd 59% o'r ymatebwyr o'r gwasanaethau prawf yn cytuno y dylai asiantaeth NOMS gydlynu'r adolygiadau, gyda 31% anghytuno a 10% yn atal.

Roedd y rheiny a gytunodd yn ystyried yn gyffredinol y byddai dull cydamseredig yn helpu i sicrhau bod data cyson yn cael ei gasglu ar gyfer meincnodi. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'r dull hwn yn galluogi cyfnewid gwybodaeth costio a pherfformiad a rhannu dysg. Roedd rhai, gan gynnwys NACRO ac Ardal Gwasanaeth Prawf Caint, yn ystyried y dylid adeiladu hyblygrwydd i mewn i'r broses i alluogi adolygiadau ardal sengl ble fo'n briodol er mwyn cwrdd ag anghenion lleol.

Roedd rhai a anghytunai yn meddwl y dylai'r broses adolygu gael ei rheoli'n gyfan gwbl gan fyrddau ac ymddiriedolaethau. Awgrymodd Ardal Gwasanaeth Prawf De Swydd Efrog y dylai'r dewis o adolygiadau a'u hamseriad fod yn fater ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau lleol i'w penderfynu er mwyn cwrdd â'u gofynion ac amgylchiadau penodol. Nid oeddent yn credu y byddai rhagnodi'r amser o'r flwyddyn pan ddylid cynnal adolygiadau yn gymorth mawr gan eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar natur a chymhlethdod y gwasanaeth sy'n cael ei adolygu.

ii. Negydu a chytuno unrhyw amrywiadau angenrheidiol i fanylebau gwasanaeth cenedlaethol gyda'r ardaloedd prawf?

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r ymateb i ran i). Cytunodd 56% o ymatebwyr, anghytunodd 11% ac ymataliodd 33%. O'r ymatebion hyn,

cytunodd 62% o ymatebwyr o'r gwasanaethau prawf, anghytunodd 28%, gyda 10% yn atal neu'n gwneud dim sylwadau ar y cwestiwn hwn.

O'r rheiny a gytunodd, ystyriai llawer y byddai amrywiadau i fanylebau gwasanaeth cenedlaethol yn galluogi cwrdd ag anghenion lleol er bod rhai'n dadlau y dylai unrhyw amrywiad o fanylebau o'r fath fod ar sail tystiolaeth ac yn eithriad yn hytrach nag yn arfer. Teimlai nifer fach o ymatebwyr na ddylid caniatáu amrywiadau, neu os oeddent yn cael eu caniatáu, y dylai'r canol negydu unrhyw newidiadau yn hytrach na'r rhanbarthau.

9. A ydych yn cytuno â'n cynigion o ran sut ddylai'r ardaloedd prawf gynnal cam cyntaf (casgliad data cychwynnol) yr adolygiadau Gwerth Gorau?

Cytunodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51%) â'r cynigion gyda'r ffordd y dylai ardaloedd prawf gynnal y cam cyntaf (casglu data cychwynnol) yr adolygiadau Gwerth Gorau. Anghytunodd 15% o ymatebwyr gyda 34% yn atal neu heb sylwadau.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y pwysigrwydd o sicrhau bod gwybodaeth am gost yn cael ei chasglu mewn modd cyson a chymaradwy, a'i gwneud ar gael. Roedd rhai gyda diffyg hyder yn y model costio-uned cenedlaethol presennol ac yn dweud y dylid ei adolygu.

Mynegodd rhai bryder fod y broses yn ymddangos fel petai ond yn cynnwys ardaloedd prawf ac yn argymell y dylai rhanddeiliaid eraill, megis darparwyr gwasanaeth trydydd parti, hefyd gael eu cynnwys. Gwnaethpwyd y pwynt hefyd bod angen cytundeb ynghylch sut y bydd y wybodaeth yn cael ei chyfnewid ar draws yr holl asiantaethau, yn enwedig gan fod gwasanaethau'n gallu cael eu cyflenwi gan ddarparwyr amgen.

Cyflwynwyd ‘cam cychwynnol cyntaf’ amgen gan Accenture. Roeddent yn cynnig ymgymryd ag asesiadau diagnostig ar draws nifer fach o fyrddau i adeiladu dealltwriaeth drylwyr o gostau ac effeithiolrwydd presennol rhychwant o wasanaethau. Maent yn credu y byddai'r dull hwn yn cynhyrchu gwybodaeth o fewn cyfnod cymharol fyr o amser, a fyddai'n cael ei gasglu a'i rannu o'r canol gyda chanlyniadau ar gael yn syth. Hefyd, byddai hyn yn rhoi arwydd o'r data sydd ar gael i gymharu gwasanaethau a dichonoldeb y mesuriadau costio. Byddai hefyd yn helpu i ddangos sut mae arfer da yn edrych ac yn galluogi gosod targedau realistig.

10. A ydych chi'n cytuno y dylai meysydd prawf wneud y data cychwynnol o'u hadolygiadau Gwerth Gorau ar gael i NOMS, ac y dylid ei goladu a'i wneud ar gael i bob ardal gwasanaeth prawf er mwyn hwyluso cymhariaeth?

Cytunodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (52%) y dylai ardaloedd prawf wneud y data cychwynnol o'u hadolygiadau Gwerth Gorau ar gael i asiantaeth NOMS ac y dylid ei goladu a'i wneud ar gael i'r holl ardaloedd prawf i alluogi cymhariaeth. Anghytunodd 14% gyda'r awgrym hwn a dewisodd 34% atal neu wneud dim sylwadau ar argaeledd data cychwynnol.

Roedd y rheiny oedd o blaid, Addaction er enghraifft, o'r farn bod rhannu gwybodaeth er budd y cyhoedd. Ychwanegodd Rainer bod tryloywder, ac i wybodaeth fod ar gael a chael ei rhannu, yn angenrheidiol ar gyfer arfer gwerth gorau effeithiol. Dywedodd Ardal Gwasanaeth Prawf Gwent ei bod yn briodol i'r holl ardaloedd dderbyn data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol ac i ardaloedd prawf ddysgu o brofiad eraill. Roedd rhai, fel Ardal Gwasanaeth Prawf Dorset, yn pwysleisio na ddylai ddigwydd oni bai bod hyder mewn data wedi'i feincnodi a bod maes chwarae gwastad i'r holl ardaloedd prawf.

Mynegwyd pryder am yr angen i ddiogelu data sy'n fasnachol sensitif, yn enwedig os yw hwn i gael ei wneud ar gael yn ehangach nag i ardaloedd prawf eraill. Ceisiwyd eglurhad ar y pwynt hwn. Dadleuwyd y gallai'r gofynion hyn i baratoi a gyrru data i asiantaeth NOMS ddod â rhagor o feichiau amser a chost ar ardaloedd prawf.

11. A ydych chi'n cytuno â'r cynigion o ran sut dylai'r ardaloedd prawf herio eu cyflenwad o'r gwasanaeth?

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (53%) yn cytuno gyda'r cynigion ar gyfer sut y dylai'r ardaloedd prawf herio eu cyflenwad o'r gwasanaeth. Roedd 12% o ymatebwyr yn anghytuno a 34% yn atal neu'n gwneud dim sylwadau ar herio cyflenwad gwasanaeth.

O'r rheiny a gytunodd gyda'r datganiad, roedd rhai, megis Ardal Gwasanaeth Prawf Hampshire, yn tynnu sylw at enghreifftiau o adolygiad gwerth gorau llwyddiannus o faes gwasanaeth ble y rhannwyd gwybodaeth ac yr heriwyd modelau cyflenwi gan ddefnyddio'r fethodoleg a gynigwyd. Roeddent hefyd yn argymell bod ardaloedd prawf yn ystyried cynnwys “heriwr” allanol yn y broses. Adroddodd Rhanbarth Gwasanaeth Prawf y Gogledd Orllewin ynghylch eu profiad o'r broses herio. Roedd hon angen mewnbwn gwrthrychol. Roedd timau herio yn y rhanbarth yn cynnwys aelodau bwrdd, staff mewnol arbenigol a ‘chyfeillion allweddol’ o'r sector gwirfoddol a phreifat.

Yn gyffredinol, roedd llawer o gefnogaeth ar gyfer cydweithio. Fodd bynnag, mynegodd nifer fawr o ymatebwyr bryder fod y cynigion yn ymddangos fel eu bod yn ffafrio cydweithio rhwng ardaloedd prawf ar sail tebyg-wrth-debyg. Dadleuwyd yn gryf gan nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Bwrdd Gwasanaeth Prawf Gorllewin Swydd Efrog, Ardal Gwasanaeth Prawf De Swydd Efrog a Rainer, fod hyn yn rhy gaeth. Dylai cydweithio ddigwydd rhwng ardaloedd prawf a chyrff allanol mewn sectorau eraill sy'n cyflenwi gwasanaethau tebyg. Dadleuwyd hefyd y byddai hyn yn arwain at well tryloywder a galluogi datrysiadau newydd, arloesiad a newid.

Awgrymodd rhai ymatebwyr na ddylid creu strwythur ychwanegol er mwyn gwneud cymariaethau tu draw i'r rhanbarth gwasanaeth prawf neu grwpiau ‘teulu’.

12. A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer cynlluniau gwella perfformiad?

Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr (56%) gyda'r cynigion ar gyfer cynlluniau gwella perfformiad. Dim ond 11% oedd yn anghytuno a 33% yn atal. Roedd y cynigion ar gyfer cynlluniau gwella perfformiad yn boblogaidd ymysg ymatebwyr o'r gwasanaeth prawf. Roedd dros dri-chwarter o'r ymatebwyr o'r gwasanaeth prawf (76%) yn cytuno gyda'r cynnig, 10% yn anghytuno a 14% yn atal. Roedd y cynigion lleiaf poblogaidd ymysg ymatebwyr o'r trydydd sector, gyda 63% yn anghytuno, 6% yn cytuno a 31% yn atal.

Roedd llawer o ymatebwyr o'r gwasanaeth prawf yn teimlo mai prif bwrpas ymgymryd ag Adolygiadau Gwerth Gorau yw gwella gwasanaethau, ac y byddai'r cynigion ar gyfer cynlluniau gwella perfformiad yn gymorth i gyflawni hyn.

Rhybuddiodd llawer o ymatebwyr na ddylid amcangyfrif yn rhy isel yr amser ac adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu a gweithredu cynllun gwella perfformiad. Roedd rhai'n teimlo y dylai gael ei archwilio'n fwy manwl yn yr asesiad effaith. Roedd hefyd gwestiynau ynghylch a fyddai'r amcangyfrif arbedion ar gyfer blwyddyn 1 yn ddichonadwy o ystyried yr amser sydd ei angen i wneud y newidiadau angenrheidiol i gael y buddiannau effeithlonrwydd.

Dadleuodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai rhoi cynlluniau gwella perfformiad yn unig i ardaloedd sy'n perfformio'n wael ac yna cyflwyno cystadleuaeth yn gwneud y farchnad yn anneniadol i ddarparwyr sector preifat a thrydydd sector posib, ac y gallent fod yn llai tebygol o ddod ymlaen i gymryd drosodd wasanaethau gwael neu rai sy'n methu.

Awgrymwyd y gallai cynlluniau gwella perfformiad gyfyngu ar ddatblygiad partneriaeth effeithiol os yw hinsawdd yn datblygu ble fo partneriaid yn cael eu gweld fel cystadleuwyr posib ac ardaloedd prawf yn canolbwyntio ar gadw gwaith yn hytrach na gwella cyflenwad gwasanaeth drwy bartneriaeth.

13. A ydych yn cytuno y dylai'r cyfarwyddwyr rhanbarthol werthuso'r cynlluniau gwella perfformiad drafft, yn unol â meini prawf gwerthuso sydd wedi eu gosod yn ganolog?

Roedd 44% o ymatebwyr yn cytuno y dylai cyfarwyddwyr rhanbarthol werthuso'r cynlluniau gwella perfformiad drafft, yn unol â meini prawf gwerthuso sydd wedi eu gosod yn ganolog. Anghytunodd 22% o ymatebwyr gyda'r cynnig hwn â 34% yn atal neu ddim yn gwneud sylw am gyfarwyddwyr rhanbarthol yn adolygu cynlluniau gwella perfformiad.

Roedd y rheiny a gytunai, megis Serco, yn dweud y byddai cyfarwyddwyr rhanbarthol yn gwerthuso'r cynlluniau yn gymorth i ostwng goddrychedd, cynyddu cysondeb a gyrru momentwm yr adolygiad ymlaen. Roedd rhai'n meddwl, gan gynnwys Clinks, na ddylai'r cyfarwyddwyr rhanbarthol wneud hyn ar ben eu hunain, ond sicrhau bod safbwyntiau'r rhanddeiliaid perthnasol yn cael eu cynnwys yn yr asesiad cyffredinol.

Roedd rhai ymatebwyr gwasanaeth prawf, fodd bynnag, yn awgrymu y dylai gwerthusiadau fod yn gyfrifoldeb y byrddau ac ymddiriedolaethau prawf, gyda chyfarwyddwyr rhanbarthol ddim ond yn cyfrannu at yr asesiadau.

Cododd llawer o ymatebwyr y mater o fod yn ddiduedd. Roedd rhai'n dadlau mai un o brif rolau'r cyfarwyddwyr rhanbarthol ddylai fod i sicrhau tryloywder yn yr adolygiadau a'r broses cynllunio gwelliant. Roedd eraill yn dadlau y dylai corff annibynnol allanol oruchwylio'r broses hon gan y byddai'n cynyddu ei hygrededd ac yn ychwanegu elfen o annibyniaeth ac atebolrwydd.

14. A ydych yn cytuno â'r cynigion i ymgorffori materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y fframwaith?

Mae ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi cael ystyriaeth ar wahân ac adlewyrchir y sylwadau yn yr asesiad effaith cydraddoldeb llawn.

Yn gryno, roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn bositif iawn. Roedd ychydig dros ddwy ran o dair o'r ymatebion (67%) yn cytuno gyda'r cynigion ar gyfer ymgorffori materion cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r fframwaith. Dim ond 1% oedd yn anghytuno â'r ffordd y cyflwynwyd materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr ymarfer ymgynghori, er na chyflwynwyd unrhyw ddewisiadau amgen. Bu i 32% atal neu wneud dim sylwadau am y cynigion ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y papur ymgynghorol.

15. Yn gyffredinol, a ydych yn cytuno mai'r fframwaith hwn yw'r ffordd gywir o weithredu Gwerth Gorau?

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u rhannu'n weddol gyfartal (34% Ydw, 33% Nac ydw a 33% yn atal). Roedd ymatebion i'r fframwaith yn gymysg ar draws y sectorau.



Roedd y fframwaith arfaethedig fwyaf poblogaidd gydag ymatebwyr o'r trydydd sector. Roedd 44% o ymatebwyr o'r trydydd sector yn cytuno, 19% yn anghytuno a 38% yn atal. Fodd bynnag, roedd ganddo lai o gefnogaeth o'r gwasanaeth prawf. Anghytunodd dros hanner (52%) o ymatebwyr gwasanaeth prawf gyda'r fframwaith yn gyffredinol, 38% yn cytuno a 10% yn atal.

Er bod y rhan fwyaf yn cefnogi egwyddorion Gwerth Gorau, lleisiodd nifer fawr o ymatebwyr bryderon ynghylch y dull arfaethedig fel yr amlinellwyd ef yn y Fframwaith.

Rhybuddiodd rhai ymatebwyr y byddai arwain gyda rhaglen genedlaethol yn creu haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth, a fyddai'n gosod cyflenwad y canlyniadau angenrheidiol mewn perygl o fewn yr amserlen arfaethedig. Awgrymwyd hefyd y byddai hyn yn gostwng sgôp ar gyfer atebolrwydd ac arloesiad lleol.

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y dylai asiantaeth NOMS ddarparu cyfarwyddyd ar y broses yn unig ac y dylai ddirprwyo cyfrifoldeb fel y gallai'r rhanbarthau ac ardaloedd prawf reoli'r adolygiadau, gan mai nhw fyddai yn y safle gorau i wybod ble'r oedd angen adolygiadau. Dadleuwyd bod angen dull hyblyg, sy'n cymell arloesiad a meincnodi ar draws ffiniau traddodiadol a chydweithio mewn partneriaethau newydd; ac y byddai hyn yn cyflawni mwy o welliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd na'r cynllun arfaethedig, y teimlwyd ei fod yn canolbwyntio mwy ar effeithlonrwydd nag ar effeithiolrwydd.

Roedd ymatebwyr eraill yn annog ystyried profiad awdurdodau lleol a weithredodd gyfundrefn tebyg ac y dylid adeiladu'r ddysg hon i mewn i'r cynllun. Roedd *Turning Point* yn teimlo, yn lle'r fframwaith arfaethedig, mai model amgen mwy priodol fyddai tendro cystadleuol gorfodol ar gyfer yr holl wasanaethau.

16. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach neu gyffredinol ar ein cynigion?

Darparodd 63 o'r 73 o ymatebwyr sylwadau ychwanegol ar y cynigion. Cynhwyswyd yn y nifer hwnnw'r rheiny a ddewisodd gyflwyno eu safbwyntiau. Mae'r materion mwyaf cyffredin na thynnwyd sylw atynt mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon fel a ganlyn:

Pwysau adnoddau

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder am lefelau ariannu presennol a dadlau nad oedd ariannu ychwanegol yn cael ei gynnig gan lywodraeth ganolog i gynorthwyo gydag adolygiadau a bod yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu Gwerth Gorau, yn enwedig mewn ardaloedd prawf llai, wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel. Rhybuddiodd un ymatebydd bod aildrefnu staff o ddyletswyddau llinell flaen i gasglu ystadegau a chwblhau datganiadau yn peryglu darpariaeth lwyddiannusy gwasanaethau prawf craidd. Roedd eraill yn teimlo y dylai'r adolygiadau ystyried blaenoriaethau cynhwysedd a baich gwaith a gwneud lwfansau'n unol â hyn.

Darpariaeth Trydydd Sector

Mynegwyd pryder am sut bydd y cynnig yn effeithio ar y trydydd sector. Roedd rhai yn teimlo bod sefydliadau trydydd sector sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol wedi dioddef o ganlyniad i oedi yn y canol dros y blynyddoedd diwethaf, a bod hyn wedi rhwystro eu datblygiad. Tra'u bod yn weddol fodlon i'r canol reoli'r broses am y tair blynedd gyntaf, teimlwyd y gallai hyn greu oedi pellach cyn i unrhyw gyfleoedd i gymryd rhan ddod ar gael i'r trydydd sector.

Roedd un ymatebydd yn pryderu y gallai fod yn rhy hawdd i gomisiynwyr ddefnyddio'r broses adolygu fel cyfiawnhad ar gyfer gohirio penderfyniadau comisiynu a methu cefnogi'r gwasanaethau y byddai'r trydydd sector mewn llawer o achosion yn y safle gorau i'w cyflenwi, ac a allai gael effaith wirioneddol ar gyfraddau aildroseddu a'r niferoedd yn y ddalfa. Pryder arall oedd y byddai system oedd yn gyfan gwbl fewnol yn rhwystro'r trydydd sector rhag dangos ei werth wrth ostwng troseddu, felly dylid dangos mwy o gydnabyddiaeth o werth partneriaeth gan y byddai'r effaith potensial o golli'r sefydliadau trydydd sector na allai ffynnu o dan y gyfundrefn hon, a'r golled gymdeithasol i gymunedau petai hyn yn digwydd, yn sylweddol.

Materion gweithlu a rhoi ar gontract allanol

Codwyd materion ynghylch trosglwyddiad staff o dan y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE), yn enwedig o amgylch pensiynau ac o bosib creu gweithlu dwy haen. Teimlwyd y byddai

rhai sefydliadau trydydd sector yn gallu ymdopi â throsglwyddiadau TUPE ond na fyddai sefydliadau bach yn gallu gwneud hynny.

Gwrthwynebodd un ymatebydd yn gryf unrhyw gynlluniau i roi tasgau craidd y gwasanaeth prawf ar gontract allanol, ond roedd yn fodlon rhoi'r gweithgareddau nad oeddent yn rhai creiddiol allan ar gontract trwy bartneriaethau. Roedd yr ymatebydd yma yn gweld Gwerth Gorau fel dull addas ar gyfer cyflawni'r trefniadau partneriaeth mwyaf effeithiol ac effeithlon. Bu i eraill fynegi pryder am unrhyw gynllun oedd yn arwain at gontractio staff allan i gyrff eraill cyn bod goblygiadau cytundeb gweithlu dwy haen, y ddau god ymarfer perthnasol a'r polisïau iechyd a diogelwch perthnasol o fewn y gwasanaeth wedi cael sylw.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r targed contractio allan o 10% ar gyfer gwaith y gwasanaeth prawf gael ei ailgyflwyno hyd nes bydd dull comisiynu newydd cadarn yn cael ei ddatblygu. Awgrymwyd hefyd y dylai'r byrddau ac ymddiriedolaethau prawf perfformiad uchel presennol gael eu hannog i feddwl yn greadigol ac uchelgeisiol am y gwasanaethau y maent yn eu comisiynu, tu draw i'r llinell amser a chynigion a nodwyd yn y papur ymgynghorol.

Asesiad effaith

Teimlai rhai ymatebwyr bod camgymeriadau yn yr asesiad effaith ac nad oedd yn ystyried y byddai buddiannau'r gyfundrefn Gwerth Gorau yn gorbwyso costau'r broses. Teimlai rhai nad oedd y sail i'r amcangyfrifon arbedion o £17.1 miliwn yn glir iawn ac roeddent yn cymryd yn ganiataol y byddai'r holl ardaloedd prawf ac ymddiriedolaethau yn gwneud arbedion effeithlonrwydd o 3% heb gydnabod y byddant yn cychwyn o wahanol leoedd neu y bydd eu gallu i wella'n dibynnu rhyw gymaint ar amgylchiadau lleol. Awgrymwyd hefyd y byddai adnoddau'n cael eu dargyfeirio o ddyletswyddau llinell blaen i reolaeth y broses. Rydym wedi gwrando ar y sylwadau ac wedi datblygu Asesiad Effaith newydd a gynhwysir yn y ddogfen ymateb hon.

Materion eraill

Roedd rhai ymatebwyr gwasanaeth prawf yn pryderu'n fawr am yr hyn roeddent yn ganfod fel tybiaeth nad yw ardaloedd prawf eisoes yn cynnal asesiadau math gwerth gorau neu ddim yn gwneud hynny oni bai fod y canol yn dweud wrthynt; ac y gellid cymryd y papur ymgynghorol fel ei fod yn awgrymu, yn gyfeiliornus, nad oes ganddynt unrhyw hanes o gynnal adolygiadau o wasanaethau a chyflenwi arbedion effeithlonrwydd. Roedd eraill yn meddwl bod y cynigion yn rhoi gormod o bwyslais ar brosesau sydd wedi'u canoli; yn tan-chwarae'n sylweddol rôl y byrddau ac ymddiriedolaethau prawf lleol wrth sicrhau cyflenwad effeithiol ac effeithlon o wasanaethau lleol; ac yn creu risg o fygu gwelliannau ac atebolrwydd gwasanaethau lleol.

Casgliad a'r camau nesaf

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ddiolchgar am yr holl sylwadau a dderbyniwydar y papur ymgynghorol ar Werth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf ac yn croesawu'r ymateb positif cyffredinol i'r cynigion.

Mae'r holl ymatebion a sylwadau wedi'u hystyried yn ofalus ac rydym wedi dynodi nifer o themâu isod. Rydym hefyd wedi disgrifio ein safle a sut y bydd ymatebion yn dylanwadu ar ddatblygiad pellach o'r fframwaith.

Y symudiad tuag at ddatganoli

Roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno (41%) nag yn anghytuno (29%) y dylai Gwerth Gorau symud at fodel datganoledig ble byddai gan yr ardaloedd prawf y rhyddid i gytuno gyda chyfarwyddwyr rhanbarthol pa wasanaethau y byddent yn dymuno eu hadolygu i gwrdd â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol. Fodd bynnag roedd 18% of ymatebwyr, yn enwedig y byrddau ac ymddiriedolaethau prawf, yn teimlo y dylai'r datganoli hwn ddigwydd o'r cychwyn, ond dymunai 33% weld datganoli ym mlynyddoedd 2 i 4, neu'n dibynnu ar newidiadau eraill sy'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, roedd pryder hefyd na fyddai model datganoledig yn darparu digon o symbyliad i gyflenwi gwelliannau mewn cyflenwi gwasanaeth.

Rydym bob amser wedi bod yn awyddus i symud at fodel datganoledig. Er mwyn darparu mwy o ryddid i asiantaeth NOMS, ni fydd unrhyw raddfeydd amser cyfyng yn cael eu gosod. Yn hytrach bydd asiantaeth NOMS yn cael pennu'r manylion o sut a phryd y bydd y model datganoledig yn cael ei wireddu.

Rydym yn dal i deimlo y dylai adolygiadau gael eu cydlynu drwy'r cyfarwyddwr rhanbarthol gan y bydd hyn yn caniatáu rhannu adnoddau a sgiliau rhwng yr ardaloedd prawf a darparwyr eraill ac yn ddefnydd effeithiol o adnoddau.

Mae angen cadw rôl y cyfarwyddwr rhanbarthol yn y broses Gwerth Gorau er mwyn sicrhau bod Gwerth Gorau yn cael ei weithredu'n gyson ac yn annibynnol a thryloyw.

Y meini prawf ar gyfer dewis gwasanaethau i'w hadolygu

Dynododd y ddogfen ymgynghori bump o feini prawf ar gyfer dewis gwasanaethau i'w hadolygu. Y lleiaf poblogaidd o'r rhain oedd: rhif iv. cynhwysedd y byrddau ac ymddiriedolaethau i adolygu'r gwasanaeth. Dywedodd sawl ymatebydd nad oedd hyn yn rheswm cyfiawnadwy dros beidio adolygu gwasanaeth. Tra'n bod ni'n deall y safbwyntiau hyn, rydym yn dal i gredu ei fod yn briodol cadw hyn fel un o'r meini prawf i sicrhau yr ymgymerir ag adolygiadau yn briodol er mwyn cyflenwi'r uchafswm o enillion mewn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Gofynnodd y ddogfen ymgynghori hefyd a ddylid ystyried unrhyw feini prawf eraill. Gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau, ond nid oedd cefnogaeth eang i unrhyw un. Nid oeddem yn teimlo bod digon o gonsensws ar unrhyw awgrym i gefnogi newidiadau i'r rhestr meini prawf.

Y diffiniad o “Gydweithio” ac “Ymgynghori”

Yr unig ddiffiniad o “Gydweithio” yn y ddogfen ymgynghori oedd un yn cyfeirio at “gymheiriaid” a ystyriwyd yn “fyrddau ac ymddiriedolaethau gwasanaeth prawf eraill”. Roedd y diffiniad o “Ymgynghori” hefyd ar brydiau wedi'i gyfyngu i gyfeirio at fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf eraill.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cwestiynu pam fod diffiniadau cyfyng wedi'u mabwysiadu. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth ar gyfer cydweithio ac ymgynghori mwy ac ehangach.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod na ddylai cydweithio ac ymgynghori gael eu cyfyngu i ardaloedd prawf eraill. Bydd y diffiniadau o Gydweithio ac Ymgynghori yn cael eu hehangu i sicrhau eu bod yn caniatáu ymgysylltiad ehangach a ddylai gynnwys darparwyr, partneriaid, a rhanddeiliaid mewnol ac allanol, a gwneud defnydd o drefniadau cynllunio a chomisiynu ar y cyd. Dylai hyn fod yn gymorth wrth gyflenwi gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, er enghraifft, drwy bartneriaethau traws-sector aml-asiantaeth, is-gontractio neu weithio mewn consortia.

Dull cystadleuaeth

Roedd nifer o ymatebion, yn benodol gan y trydydd sector a'r sector preifat, yn dweud nad oedd y dull cystadleuaeth yn glir. Gellid ei ddehongli fel na fyddai cystadleuaeth yn cael ei hystyried oni bai bod y darparwr gwasanaeth presennol wedi methu cyflenwi'r gwelliannau a nodwyd yn y cynllun gwella perfformiad.

Nid dyma oedd y bwriad. Mae defnydd o gystadleuaeth yn un o'r pump 'C'. Rhaid ystyried cystadleuaeth yn ystod y broses adolygu Gwerth Gorau fel dull amgen ar gyfer gwelliant mewnol. Mater i’r byrddau ac ymddiriedolaethau prawf yw hi i ystyried p’un a ellir cyflawni Gwerth Gorau drwy welliannau i'r gwasanaeth presennol ynteu trwy ddefnydd o gystadleuaeth, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth.

Bydd y fframwaith Gwerth Gorau yn cael ei ddiwygio fel ei bod yn glir fod rhaid i ardaloedd prawf ymgymryd â gwerthusiad i weld p’un a ddylid rhoi’r gwasanaeth yn destun i gystadleuaeth, fel rhan o'r broses adolygu.

Gwella tryloywder Gwerth Gorau

Roedd rhai o'r ymatebion yn lleisio pryderon na fyddai gweithrediad Gwerth Gorau yn cyflenwi newid gwirioneddol ac y byddai'n cael ei ddefnyddio i gadarnhau ac atgyfnerthu'r trefniadau cyflenwi gwasanaeth presennol heb unrhyw welliannau gwir yn effeithlonrwydd ac/neu effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.

Rhaid i ni sicrhau yr ymgymerir ag adolygiadau Gwerth Gorau mewn modd cyson ar draws yr holl ranbarthau, bod y gwerthusiad o'r adolygiadau yn cael eu gweld fel rhai annibynnol a bod y penderfyniadau a wneir yn dryloyw.

Dylai'r Gweinidog Gwladol gadarnhau'r lefel o uchelgais ar gyfer sgôp a graddfa'r rhaglen waith Gwerth Gorau a'r lefel y mae angen cystadleuaeth arni.

Bydd y byrddau ac ymddiriedolaethau prawf yn adolygu'r gwasanaethau fel comisiynydd ac, yn y mwyafrif o achosion, darparwr y gwasanaethau hynny. I sicrhau bod gwahaniad clir o'r rolau hyn, bydd muriau moesegol yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith.

Bydd y cyfarwyddwyr rhanbarthol yn gwerthuso'r adolygiadau, a chytuno gyda'r byrddau ac ymddiriedolaethau prawf ynghylch gweithrediad y cynllun gwelliant. Byddai'r cyfarwyddwyr rhanbarthol yn cael ei annog i ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector a sector preifat i'w cefnogi yng ngwerthusiad y cynlluniau gwella perfformiad er mwyn sicrhau tryloywder a thrwy hynny adeiladu hyder yn y broses Gwerth Gorau.

Bydd tryloywder Gwerth Gorau yn cael ei gefnogi gan fframwaith rheoleiddio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cyfarwyddyd pellach

Roedd nifer o sylwadau y byddai angen darparu gwybodaeth bellach er mwyn manylu ynghylch sut y byddai adolygiadau Gwerth Gorau'n gweithredu yn ymarferol.

Bydd y fframwaith yn dynodi, fel rhan o weithrediad a chyflenwad Gwerth Gorau, y dylai asiantaeth NOMS ddatblygu cyfarwyddyd i esbonio proses a manylion yr adolygiadau. Dylai'r cyfarwyddyd gydnabod yr angen i gadw'r broses yn syml, adeiladu ar waith blaenorol a dynodi a gweithredu dysg.

Asesiad Effaith

Gwnaethpwyd nifer o sylwadau am wybodaeth costau a buddiannau'r Asesiad Effaith cychwynnol a gafodd ei gynnwys yn yr ymatebion ymgynghoriad. Rydym wedi adolygu'r Asesiad Effaith ac ymgymryd â gwaith pellach i ddatblygu dull o ddynodi'r costau a buddiannau o gyflwyno Gwerth Gorau. Cynhwysir yr Asesiad Effaith terfynol o fewn y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Rydym wedi datblygu'r Asesiad Effaith terfynol ar y sail y dylai Gwerth Gorau leihau i'r eithaf y baich gweinyddol i'r holl randdeiliaid sy'n rhan o'r broses. Rhaid i Werth Gorau beidio â dod yn broses fiwrocrataidd ond un lem sy'n cyflenwi'r budd mwyaf am y gost isaf.

Offeryn perfformiad yw Gwerth Gorau, y dylid ei ystyried fel rhan o reolaeth dydd-i-ddydd gwasanaethau, yn hytrach nag fel tasg fiwrocrataidd ychwanegol.

Bydd y themâu uchod ynghyd â'r argymhellion cytunedig gan y tasglu Trydydd Sector a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Cyfiawnder, yn cael eu hystyried wrth ddiweddaru'r fframwaith Gwerth Gorau. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r fframwaith wedi'i ddiweddaru yn nes ymlaen yn ystod y mis hwn.

Bydd asiantaeth NOMS yn defnyddio'r fframwaith i ddatblygu'r rhaglen a phroses fanwl ar gyfer gweithrediad a chyflenwad Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf.

Asesiad Effaith:

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys y cam cynnig terfynol o'r Asesiad Effaith ar gyfer y polisi hwn, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn.

Crynodeb: Ymyrraeth & Opsiynau

Adran /Asiantaeth: Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	**Teitl:** Asesiad Effaith Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf	
Rhan: Cynnig Terfynol	**Fersiwn: 2**	**Dyddiad: 12 Medi 2008**
Cyhoeddiadau Cysylltiedig: Y ddogfen yn crynhoi ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Werth Gorau, yn gynharach yn y ddogfen gyffredinol hon		

Ar gael i edrych arni neu ei lawrlwytho yn:

http://www.justice.gov.uk

Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Jon Neville **Ffôn: 020 7035 4930**

Beth yw'r broblem sydd dan ystyriaeth? Pam fod angen ymyrraeth llywodraeth?

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn wynebu gofynion cynyddol ar ei wasanaethau tra hefyd angen cyflenwi arbedion effeithlonrwydd. Bydd datblygiad y broses Gwerth Gorau yn cynorthwyo'r ardaloedd prawf gyda'u cymhellion i arloesi a gostwng eu sylfaen cost. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod yr ardaloedd prawf yn canolbwyntio ar gynhyrchu eu deilliannau dewisol yn fwy effeithlon ac effeithiol. Rhaid iddi sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn cyflenwi gwerth am arian i'r trethdalwr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer troseddwyr, gostwng aildroseddu a chynorthwyo i amddiffyn y cyhoedd.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau bwriedig?

I wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau prawf a darparu gwerth am arian i'r trethdalwr. Yr effeithiau bwriedig yw:

- Gwell gwerth am arian i'r trethdalwr wrth gyflenwi'r gwasanaethau prawf.
- Gwell effeithlonrwydd a chostau llai.
- Gwell cyflenwad gwasanaeth.
- Canlyniadau mwy effeithlon ac effeithiol ar gyfer troseddwyr.
- O ganlyniad, llai o aildroseddu a, thrwy hynny, amddiffyn y cyhoedd.

Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried? Cyfiawnhewch unrhyw opsiwn dewisol os gwelwch yn dda.

Wrth i'r Mesur Rheoli Troseddwyr fynd drwy'r Senedd, dywedodd Gweinidogion bod angen symud i ffwrdd oddi wrth gyfundrefn gontractio allanol yn seiliedig ar dargedau i fodel sy'n seiliedig ar egwyddorion gwerth gorau, lle byddai'r darparwr a ddewisir yn un sy'n rhoi'r gwerth gorau, o ba sector bynnag y daw. Felly, ychydig iawn o sgôp sydd i ystyried opsiynau eraill a chynhwysir yr opsiwn 'gwneud dim' yma fel meincnod i asesu Gwerth Gorau yn ei erbyn.

Pryd fydd y polisi'n cael ei adolygu i sefydlu'r union gostau a buddiannau a chyflawniad yr effeithiau bwriedig?

Bydd yr adolygiad sylweddol cyntaf o'r polisi'n digwydd ar ddiwedd blwyddyn ariannol lawn gyntaf ei weithrediad.

Cymeradwyaeth derfynol gan y Gweinidog Ar gyfer y cam ymgynghori ar y cynnig terfynol o'r Asesiadau Effaith:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac rwyf yn fodlon (a) ei fod yn cynrychioli barn deg a rhesymol o gostau disgwyliedig, buddiannau ac effaith y polisi, a (b) fod y buddiannau'n cyfiawnhau'r costau.

Llofnodwyd gan y Gweinidog sy'n gyfrifol:

.....

Dyddiad:

Crynodeb: Dadansoddiad & Thystiolaeth

Opsiwn Polisi: Gwerth Gorau	Disgrifiad: Adolygiadau Gwerth Gorau gan ardaloedd prawf, ar sail cymharu, herio, ymgynghori, cydweithio a chystadlu.

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL		Disgrifiad a graddfa'r **costau cylchredeg allweddol** yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Un-tro (Trosglwyddo)	**Bl.**	• Costau ar gyfer rheoli a chyflenwi'r adolygiadau a gweithrediad y cynlluniau gwelliant ar draws yr ardaloedd prawf (staff a threuliau).
£ 200,000	1	• Costau i ganolfan asiantaeth NOMS (staff, hyfforddiant, cynhyrchu dogfennau, treuliau eraill).
Cost Flynyddol Gyfartalog (ac eithrio'r gost un-tro)		
£ 930,000		**Cyfanswm Cost** (Gwerth Presennol) **£ 4.5 miliwn**

Costau allweddol eraill nad ydynt yn rhai a gylchredir yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Costau ar gyfer mewnbwn gwybodaeth arbenigol i'r adolygiadau a gweithrediad, cost cystadlaethau, costau ar gyfer rheoli newidiadau cyfredol, a chostau i ranbarthau asiantaeth NOMS.

BUDDIANNAU

BUDDIANNAU BLYNYDDOL		Disgrifiad a graddfa'r **costau cylchredeg allweddol** yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Amcangyfrifwn y byddai arbedion o £29.6 miliwn **dros bum mlynedd**. Gweler y sylfaen dystiolaeth os gwelwch yn dda am ddisgrifiad o pam fod y cyfrifiad yn cael ei wneud yn y modd hwn. Byddai'r buddiannau'n cymryd ffurf arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i adolygiadau Gwerth Gorau.
Un-tro	**Bl**	
£		
Budd Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio un-tro)		
£ 5.9M		**Cyfanswm Budd** (Gwerth Presennol) **£ 25.8 miliwn**

Costau allweddol eraill nad ydynt yn rhai a gylchredir yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Gwell gwerth am arian i drethdalwyr, gwell cyflenwad gwasanaeth, gwell canlyniadau i droseddwyr, llai o aildroseddu. Mae'r rhain i gyd yn deillio o'r gwelliannau o ganlyniad i'r adolygiadau Gwerth Gorau.

Prif Dybiaethau/Ffactorau Sensitif/Risgiau Mae risg y byddai'r system yn rhoi mantais i'r darparwr presennol, gan nad oes gofynion i gystadlu gwasanaeth ar ôl amser penodol. Bydd y risg hwn yn cael ei liniaru drwy'r gofynion i brofi gwerth yn erbyn y farchnad.

Blwyddyn Sylfaen Pris 2007/08	Cyfnod Amser Blynyddoedd 5 mlynedd	**Ystod Buddiannau Net** (Gwerth Presennol Net) **£ 1.6 miliwn – £21.3 miliwn**	**BUDD NET** (Amcangyfrif Gorau Gwerth Presennol Net) **£ 21.3 miliwn**

Dros ba ardal ddaearyddol y mae'r polisi / opsiwn yn weithredol?	Cymru a Lloegr
Ar ba ddyddiad y bydd y polisi'n cael ei weithredu?	Gaeaf 2008
Pa sefydliad(au) fydd yn gorfodi'r polisi?	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Beth yw cyfanswm cost flynyddol y gwaith gorfodi i'r sefydliadau hyn?	£ Wedi'i chynnwys uchod
A yw'r orfodaeth yn cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?	Ydy
A fydd gweithrediad yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd?	Amh.
Beth yw gwerth y mesur gwneud iawn arfaethedig y flwyddyn?	£
Beth yw gwerth unrhyw newidiadau mewn gollyngiadau nwyon tŷ gwydr?	£ Amh.
A fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar gystadlu?	Bydd

Y gost flynyddol (£-£) i bob sefydliad (ac eithrio un-tro)	Meicro	Bach	Canolig	Mawr
A oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi eu heithrio?	Na	Na	N/A	N/A

Effaith ar Gost Sylfaenol y Baich Gweinyddol (Prisiau 2005)					(Cynnydd / Lleihad)
Cynnydd o	£	Lleihau o	£	**Effaith Net**	**£**

Allwedd:	**Cost a budd blynyddol: Prisiau Cyson**	**Gwerth Presennol(Net)**

Sail Dystiolaeth (ar gyfer crynodebau)

[Defnyddiwch y gofod hwn (gydag argymhelliad o 30 tudalen ar y mwyaf) i gyflwyno'r dystiolaeth, y dadansoddiad a'r naratif manwl y gwnaethoch gynhyrchu eich opsiynau neu gynigion polisi ar eu sail. Dylech sicrhau bod y wybodaeth wedi'i threfnu fel ei bod yn egluro'r wybodaeth yn y crynodeb ar dudalennau blaenorol y ffurflen hon yn glir.]

Cefndir

Mae gwasanaethau prawf yn cael eu darparu gan 42 o ymddiriedolaethau a byrddau prawf ledled Cymru a Lloegr, wedi eu trefnu'n ddeg rhanbarth (a ddiffinnir i gynnwys Cymru) ac wedi eu cydlynu gan yr Asiantaeth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS). Mae'n goruchwylio troseddwyr yn y gymuned – rhai sydd â gorchymyn llys (tua 70%) a rhai sydd wedi eu rhyddhau ar drwydded o'r carchar (tua 30%). Mae cyllideb flynyddol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi bod oddeutu £860 miliwn ac mae'n cyflogi tua 20,000 o staff. Ar unrhyw adeg, mae'n goruchwylio tua 200,000 o droseddwyr sy'n oedolion yn y gymuned a, phob blwyddyn, mae'n dechrau goruchwylio tua 175,000 o droseddwyr. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys:

- Goruchwylio gorchmynion cymunedol (a allai gynnwys, er enghraifft, gwaith di-dâl, cyrffyw neu ailsefydlu cyffuriau). Er enghraifft, pob blwyddyn, bydd y gwasanaeth Prawf yn dod o hyd i ac yn goruchwylio tua 8 miliwn awr o waith di-dâl gan droseddwyr mewn cymunedau lleol.
- Paratoi adroddiadau cyn-dedfrydu (tua 250,000 pob blwyddyn) i'r llysoedd.
- Gweithio gyda'r rhai sydd wedi dioddef troseddau treisgar neu rywiol lle mae'r troseddwr wedi'i ddedfrydu i flwyddyn neu fwy yn y carchar.
- Trefnu hosteli cymeradwy i letya, er enghraifft, troseddwyr sydd wedi eu rhyddhau o'r ddalfa. Mae tua 100 o hosteli prawf cymeradwy. [2]

Y Sbardun ar gyfer Newid

Gwasanaeth cyhoeddus yw'r gwasanaeth Prawf, er bod yr ymddiriedolaethau a'r byrddau weithiau'n contractio gwasanaethau allan i ddarparwyr preifat a rhai trydydd sector. Mae'r gwasanaeth prawf yn wynebu sefyllfa lle mae mwy a mwy o alwadau arno tra'i fod ar yr un pryd yn gorfod dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd o 3% y flwyddyn tan 2011. Mae angen cymhelliad ar ardaloedd prawf i gyflawni eu canlyniadau dewisol yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gan fod gwasanaethau prawf yn cael eu cyllido gan y trethdalwr, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod eu darparwyr yn rhoi'r gwerth gorau posibl am arian tra'n darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gyflenwi gwasanaeth cost effeithiol ac effeithlon

[2] Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â gwefan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – www.gwasanaeth prawf.homeoffice.gov.uk.

sy'n rhoi canlyniadau gwirioneddol i droseddwyr, lleihau aildroseddu a rhoi buddiannau i drethdalwyr sy'n talu am y gwasanaeth.
Yn 2007/08, daeth yn ofynnol i fyrddau prawf gwrdd â tharged o gontractio 10% o'u gwasanaethau i ddarparwyr allanol, mewn ymgais i wella lefel y cystadlu a gwella canlyniadau i droseddwyr. Wrth i'r Mesur Rheoli Troseddwyr fynd drwy'r Senedd, dywedodd Gweinidogion fod angen symud i ffwrdd oddi wrth system contractio allanol ar sail targedau at fodel sy'n seiliedig ar egwyddorion gwerth gorau, lle byddai'r darparwr a ddewisir yn un sy'n rhoi'r gwerth gorau, o ba sector bynnag y daw.

Yng ngoleuni hyn a'r ffaith bod angen sicrhau bod y gwasanaeth Prawf yn rhoi gwerth am arian, bydd system Gwerth Gorau'n cael ei chyflwyno. Byddwn yn asesu opsiwn o 'wneud dim' er mwyn cael y data cychwynnol i asesu'r polisi Gwerth Gorau yn ei erbyn. Rydym yn trafod y math o gyfundrefnau gwerth gorau y gellid eu gweithredu isod.

Yr Ongl Llywodraeth Leol

Mae'r system Gwerth Gorau, sy'n cael ei hasesu yn yr Asesiad Effaith hwn, wedi'i hysbrydoli gan system o'r un enw a ddefnyddiwyd gan lywodraeth leol ers mis Ebrill 2000, ar ôl pasio Deddf Llywodraeth Leol 1999. Er bod nifer o wahaniaethau rhwng ein model arfaethedig ni a'r un llywodraeth leol, maent hefyd yn debyg iawn, ac felly bydd y costau a'r buddiannau sy'n deillio o ganlyniad i'r system llywodraeth leol yn rhoi rhywfaint o syniad i ni o effeithiau posibl system Gwerth Gorau ar gyfer y Gwasanaeth Prawf.

Nid ymddengys bod unrhyw broffil cost / budd cenedlaethol, systematig ar gyfer y gyfundrefn gwerth gorau a ddefnyddir gan lywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth berthnasol yn rhoi syniad da o sut y cafodd y buddiannau eu mesur yn erbyn y costau. Mae'n amlwg bod nifer o awdurdodau lleol yn gweld y gyfundrefn gwerth gorau fel cryn faich o safbwynt adnoddau. Fel y dywedodd y Comisiwn Archwilio yn 2001, *'Gall [Adolygiadau Gwerth Gorau] fod yn brosiectau hir, anodd a thrwm ar adnoddau. Mae'n bwysig bod cynghorau'n cynllunio sut i gynnal momentwm ar ôl cwblhau'r adolygiad.'* [3] Mewn adroddiad arall o'r un flwyddyn, dywedodd 95% o'r awdurdodau lleol a holwyd fod gweithredu gwerth gorau yn cyflwyno cryn her iddynt. [4] Yn ôl adroddiad ddwy flynedd yn ddiweddarach, roedd gwerth gorau wedi arwain at fwy o fiwrocratiaeth. [5] Roedd amser staff yn adnodd allweddol

[3] 'Changing Gear – Best Value Annual Statement 2001', Comisiwn Archwilio, Medi 2001, t.25.

[4] ''Best Value in English Local Government – Summary Results from the Census of Local Authorities in 2001 – adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer [cyn] Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog gan G. Enticott, R.M. Walker, G.A. Boyne, S. Martin 6 ac R. Ashworth, ar ran y Tîm Ymchwil yn Ysgol Fusnes Caerdydd, adran 3.2

[5] 'Evaluation of the long-term impact of the Best Value regime: Baseline report (Executive Summary)' – Prifysgol Caerdydd / Y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Llywodraeth Leol a Rhanbarthol, Mai 2003, t.viii.

a dywedodd nifer o staff fod gwerth gorau wedi arwain at gynnydd sylweddol yn eu baich gwaith.[6]

Roedd rhai o'r costau uchel hyn yn deillio o'r ffyrdd arbennig yr oedd cynghorau'n cyflawni eu gweithgareddau. Gallai ochr 'gymharu' gwerth gorau fod yn drwm ar adnoddau, oherwydd bod cynghorau'n ceisio dod o hyd i ddata priodol i gymharu eu hunain yn eu herbyn. T[7] Hefyd, roedd nifer o awdurdodau lleol, ar y dechrau o leiaf, yn dueddol o adolygu gormod o wasanaethau ar y tro, gan achosi costau uchel a mwy o anhawster cael budd o wneud hynny.[8] Gallai gweithredu'r camau a oedd yn deillio o adolygiadau gwerth gorau ar yr un pryd â gweithredu adolygiadau newydd arwain at orymestyn.[9] Yn olaf, ystyriwyd bod y broses arolygu yn cyflwyno cost sylweddol.[10]

Ond roedd adolygiadau gwerth gorau yn dal i roi arbedion effeithlonrwydd. Barnodd y Comisiwn Archwilio yn 2001 y byddai hanner yr adolygiadau gwerth gorau a wnaed 'yn bendant' neu 'mae'n debyg' yn arwain at wasanaethau gwell.[11] Yn ôl astudiaeth arall o'r un flwyddyn, roedd nifer o adolygiadau wedi arwain yn uniongyrchol at wella gwasanaethau ac / neu arbedion cost. Dywedodd 24% o'r cynghorau a holwyd eu bod wedi cynhyrchu arbedion o lai na £150,000, dywedodd 29% eu bod wedi arbed rhwng y ffigwr hwnnw a miliwn o bunnau, a dywedodd 12% eu bod wedi gwneud arbedion mwy fyth, er bod 35% yn dweud na wnaethant unrhyw arbedion o gwbl.[12] Mewn adroddiad gwerthuso diweddarach, barnwyd bod 42 o'r 61 o adolygiadau gwerth gorau yr edrychwyd arnynt wedi arwain at gyflwyno newid sefydliadol sylweddol.[13] Er enghraifft, fel y nodir yn yr adroddiad cynharach, llwyddodd Bwrdeistref Lewisham yn Llundain i wneud arbedion o £500,000 yn ei wasanaeth refeniw a budd-daliadau.[14] Yn aml gwnaethpwyd gwelliannau gwasanaeth eraill, nad ydynt o anghenraid yn cael eu mynegi yn nhermau arbed arian. Er enghraifft,

---

[6] 'Improving Public Services: Evaluation of the Best Value Pilot Programme – Final report – Executive Summary' – Y Ganolfan Llywodraeth Leol, Ysgol Fusnes Warwick, Prifysgol Warwick, ar gyfer [cyn] Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Ionawr 2001, t.13

[7] 'Changing Gear', t.19.

[8] Er enghraifft,: *Ibid.*, t.13.

[9] 'Improving Public Services', t.7.

[10] Er enghraifft,, 'Summary Results', adran 3.5.

[11] 'Changing Gear', t.7.

[12] 'Improving Public Services', t.6.

[13] 'The long-term evaluation of the Best Value regime: Final Report' – – Y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Llywodraeth Leol a Rhanbarthol, Prifysgol Caerdydd, ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Tachwedd 2006, t. 56.

[14] 'Improving Public Services', t.6.

gwellodd Cyngor Sir Surrey ei ddefnydd o adeiladau cymunedol trwy gael trefniadau gofalu am adeiladau ar y cyd.[15]

Mae gwerthusiad cost a budd, felly, yn amrywio. Roedd 45% o'r rhai a holwyd ar gyfer adroddiad 2001 o'r farn y byddai'r enillion o'r adolygiadau yn gorbwyso cost gweithredu Gwerth Gorau. Dywedodd yr adroddiad hefyd fod llawer o'r costau yn ymwneud â sefydlu, ac y dylent leihau dros amser. [16]Ond nid oes unrhyw dystiolaeth mai dyma oedd y profiad yn gyffredinol, ac ymddengys fod y baich costau wedi bod yn drwm.

Cynnig

Yma, byddwn yn darparu dadansoddiad cost a budd o'r prif gynnig, ac yn dangos sut y mae'n newid ar gyfer y ddau amrywiad ar y cynnig hwnnw.

Y cynnig hwnnw yw cyflwyno system Gwerth Gorau i'r Gwasanaeth Prawf. Mae'n rhannol seiliedig ar y model llywodraeth leol, ond hefyd wedi'i deilwrio'n benodol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf. Byddai'r rhain yn seiliedig ar bum elfen (a elwir yn 5 'C' yn Saesneg - *consult, compare, challenge, collaborate, compete*) – sef ymgynghori, cymharu, herio, cydweithio a, ble bo hynny'n briodol, cystadlu.

Byddai'r broses yn gweithio fel a ganlyn:

i. Yn gyntaf, byddai canolfan yr Asiantaeth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), ar ran Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ganolog, yn pennu rhaglen waith o adolygiadau. Byddai NOMS yn dewis gwasanaethau y byddai'n rhaid i ymddiriedolaethau a byrddau prawf eu hadolygu. Byddai gwasanaeth yn cael ei ddewis drwy ystyried ei bwysigrwydd strategol, ei botensial i fod yn effeithiol, ei botensial i fod yn fwy effeithlon, cynhwysedd ardaloedd prawf i'w adolygu, a'r costau a'r buddiannau tebygol a fyddai'n gysylltiedig â'i adolygu. Byddai NOMS, gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, hefyd yn cyhoeddi manylebau cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau a oedd i'w hadolygu, yn gyson â Chytundebau Lefel Gwasanaeth, contractau a safonau cenedlaethol. Maes o law, byddai Gwerth Gorau yn cael ei ddatganoli a byddai model aeddfed yn caniatáu i ranbarthau Asiantaeth NOMS ddewis y gwasanaethau i'w hadolygu, er y byddai'n rhaid iddynt ystyried cyfarwyddyd cenedlaethol wrth wneud hynny.

ii. Byddai rhanbarthau NOMS yn cyfarwyddo a chydlynu'r rhaglen adolygu ranbarthol. Lle bo angen, byddent hefyd yn trafod gyda'r ardaloedd prawf yr addasiadau rhanbarthol priodol i'r manylebau gwasanaeth cenedlaethol.

iii Byddai ardaloedd prawf unigol yna'n cyflawni adolygiadau. Yn gyntaf, byddent yn casglu amrywiol ddata er mwyn gallu herio eu hunain ynghylch sut

---

[15] *Ibid.*, t.5.

[16] *Ibid.*, t.6.

yr oeddent yn darparu'r gwasanaeth. Byddent yn rhoi'r data hyn i'r ganolfan Asiantaeth NOMS (yn amodol ar ystyriaethau cyfrinachedd masnachol) er mwyn creu cronfa ddata genedlaethol, a byddai Canolfan Asiantaeth NOMS yna'n ei rhoi i'r holl ardaloedd prawf eraill, fel y gallent wedyn feincnodi eu perfformiad yn erbyn perfformiad eu cyd-ardaloedd. Byddai'r ardaloedd prawf yna'n herio ymhellach eu darpariaeth o wasanaethau ac, ar sail hynny, yn ysgrifennu cynllun gwella perfformiad yn disgrifio sut maent yn bwriadu gwella eu gwasanaethau yng ngoleuni'r adolygiadau. Yna byddai'n rhaid ystyried cystadlu'r gwasanaeth.

iv. Byddai'r cyfarwyddwr rhanbarthol yn craffu ar y cynlluniau hyn, drwy ddefnyddio cyfres safonol o feini prawf gwerthuso, a chytuno ar gynllun perfformiad terfynol â'r ardal brawf ar ôl i'r ddwy ochr gytuno ar ei gadernid. Bydd y cyfarwyddwr rhanbarth naill ai'n cymeradwyo gweithredu'r cynllun gwella perfformiad neu'n ei gwneud yn ofynnol cael cystadleuaeth i ddewis darparwr sy'n rhoi gwerth gwell. Pe bai anghytundeb, byddai'r ganolfan asiantaeth NOMS, mewn ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn hwyluso'r ffordd ymlaen. Byddai'r ardal brawf yna'n gweithredu'r cynllun gwella perfformiad, ac yn monitro'r gweithrediad hwnnw.

Byddai gweithredu'n digwydd mae'n debyg yn ystod Hydref/ Gaeaf 2008.

Ymgynghori

Mae'r model arfaethedig hwn wedi bod yn destun ymgynghori anffurfiol helaeth, a hefyd yn destun i ymgynghoriad ffurfiol â'r cyhoedd dros gyfnod o ddeuddeg wythnos.

Costau a Buddiannau

Amlinellir prif **gostau'r** broses Gwerth Gorau arfaethedig yn y Gwasanaeth Prawf isod.

Lleol

1. Rheolaeth a chyflenwad yr adolygiadau a gweithredu

   Amser staff yr aelodau hynny o'r ardaloedd prawf sy'n ymwneud â rheoli a chyflenwi'r broses adolygu ac/ neu weithredu'r cynlluniau gwella perfformiad. Gall y gost hon gael ei chymryd oddi mewn i'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli, er y byddai hyn yn dibynnu ar gynhwysedd. Mae cost yn ymhlyg â rhyddhau staff gweithredol i wneud y gwaith ac, os yn briodol, ôl-lenwi'r costau staff hynny. Efallai y byddai ardaloedd prawf yn dewis cyflogi staff newydd i wneud yr adolygiadau, ond bwriad y polisi yw fod y gwaith adolygu yn cael ei gynnwys oddi mewn i'r prosesau rheoli presennol. Byddai ganddynt ddisgresiwn sylweddol i ddewis sut maent yn cynnal yr adolygiadau.

   Costau uniongyrchol, nad ydynt yn ymwneud â staff, ar gyfer yr ardaloedd prawf sy'n cynnal yr adolygiadau. Mae'r gost uniongyrchol yn fwyaf tebygol godi mewn ymgynghoriad - er enghraifft, gallai ardaloedd prawf

ddewis cynnal arolygon, a allai olygu gwariant uniongyrchol. Efallai byddai costau cyhoeddusrwydd yn gysylltiedig â hyn.

Er y bydd yr adolygiadau'n cael eu cynnal fesul ardal brawf, byddant yn cael eu cydlynu ar y lefel ranbarthol. Byddai'r rôl cydlynu'n gyfrifol am oruchwylio'r adolygiadau a gweithrediad dilynol y cynlluniau gwella perfformiad. Mae'r rôl cydlynu'n debygol o fod yn un llawn amser Band 5 (rheolwr canol) ar gyfer pob rhanbarth. Telir oddeutu £35,000 i reolwyr Band 5, gyda 30% o gynnydd yng nghostau staff ar gyfer pensiwn a chyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr, byddai costau staff oddeutu £45,500 i'r fath ranbarth.

Gan y gallai'r broses adolygu a phroses weithredu'r cynlluniau gwella perfformiad wneud galwadau ar amser staff ardal brawf leol a fyddai'n rheoli a chyflenwi'r broses adolygu ac/neu weithrediad, dylai hyn fod yn rhan o weithgaredd rheoli neu gyflenwi normal. Byddai'n anodd iawn ceisio meintioli pob newidyn, gan y byddai'n dibynnu ar amgylchiadau unigryw'r ardal brawf a chyfeiriad yr adolygiad neu gynnwys y cynllun gwella perfformiad, felly byddai'n anodd bod yn fwy penodol. Rydym wedi cymryd yn ganiataol y byddai'r broses adolygu a gweithrediad dilynol y cynllun yn cynnwys cyfnod o naw mis. Byddai cost y broses adolygu a gweithredu'r cynlluniau gwella perfformiad yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1.0% o'r cyfanswm gwariant ar y gwasanaeth.

Rydym wedi cymryd yn ganiataol y bydd y costau nad ydynt yn gostau staff, a chostau'r arolwg, pan maent yn cael eu cydlynu ar lefel rhanbarthol, yn £25,000 am bob arolwg ym mhob ardal.

2. Gwybodaeth Arbenigol

Mae'r broses adolygu a gweithredu'r cynlluniau gwella perfformiad yn debygol o wneud galwadau ar amser staff ardal brawf leol eraill gyda gwybodaeth arbenigol a all gyfrannu tuag at yr adolygiadau neu weithredu'r cynlluniau gwella perfformiad mewn amryw o ffyrdd. Byddai hyn yn anodd ei feintioli.

Amser staff y rhai sydd â gwybodaeth arbenigol ac sy'n ymwneud â'r broses adolygu ac/neu weithredu'r cynlluniau gwella perfformiad. Byddai'r gweithrediad yn dibynnu ar amgylchiadau unigryw'r ardal brawf a chyfeiriad yr adolygiad neu gynnwys y cynllun gwella perfformiad, felly byddai'n anodd bod yn fwy penodol.

3. Cystadlaethau

Os a phan gytunir ar y cynlluniau gwella perfformiad eu bod yn arwain at gystadleuaeth gwasanaethau, byddai costau o safbwynt rhedeg y cystadlaethau a'r newidiadau sefydliadol a fyddai'n gysylltiedig â newid darparwyr gwasanaeth. Byddai'n anodd ceisio meintioli hyn - bydd yn dibynnu ar nifer o gystadlaethau, a fydd yn ddibynnol ar ddeilliannau'r adolygiadau. Mae'r prosesau a chostau'r cystadlaethau'n debygol o fod yn wahanol ar draws y wlad.

4. Rheolaeth gyfredol o gyflenwad

Gall gweithredu'r cynlluniau gwella perfformiad wneud galwadau ar staff ardal brawf eraill i reoli canlyniadau'r newidiadau. Byddai hyn yn anodd ei feintioli.

Amser staff y rhai sydd yn ymwneud â rheolaeth gyfredol cyflenwi gwelliannau. Byddai'r gweithrediad yn dibynnu ar amgylchiadau unigryw'r ardal brawf a chyfeiriad yr adolygiad neu gynnwys y cynllun gwella perfformiad, felly byddai'n anodd bod yn fwy penodol. Dylai hyn fod yn rhan o unrhyw weithgaredd rheoli neu gyflenwi normal.

Costau uniongyrchol, nad ydynt yn gostau staff, i'r ardal brawf o reolaeth gyfredol cyflenwi gwelliannau.

Gan fod natur y newidiadau ac felly'r rheolaeth gyfredol o'r cyflenwad yn wahanol ym mhob achos, byddai'n anodd iawn ceisio meintioli naill ai amser staff neu gostau uniongyrchol nad ydynt yn gostau staff.

Amcangyfrifir felly bod cost gyffredinol uniongyrchol y broses i'r ardaloedd prawf tua £870,000 ar gyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf, er y bydd y mwyafrif o'r costau yn y flwyddyn gyntaf, yr ail a'r drydedd. Mae'r holl ffigyrau staff a gynhwysir yn amcangyfrifon, a byddent yn debygol o amrywio rhwng ardaloedd prawf.

Rhanbarthol

Byddai'n rhaid i swyddfeydd rhanbarthol NOMS (wedi eu diffinio er mwyn cynnwys y swyddfeydd cyfatebol yng Nghymru) fuddsoddi adnoddau mewn cydlynu'r rhaglen waith genedlaethol o adolygiadau, trafod newidiadau rhanbarthol i'r manylebau cenedlaethol ac asesu'r cynlluniau gwella perfformiad. Fodd bynnag, gan fod y swyddfeydd yma ar hyn o bryd yn cael eu had-drefnu byddai'n anodd amcangyfrif y costau ar y cam hwn

Cenedlaethol

Byddai gan Ganolfan Asiantaeth NOMS nifer o rolau yn ystod y broses: gosod y rhaglen(ni) gwaith cenedlaethol, cyflwyno manylebau cenedlaethol, cynhyrchu a chylchlythyru cyfarwyddyd, dadansoddi a chyflwyno data meincnodi, a datrys unrhyw anghytundebau rhwng cyfarwyddwyr rhanbarthol ac ardaloedd prawf ynglŷn â chynlluniau gwella perfformiad. Byddai'r rôl yn un fwy beichus na rôl y cyfarwyddwyr rhanbarthol. Ni fyddai llawer o'r tasgau yma yn syml, ond yn hytrach byddent angen dadansoddiad ac/neu ymchwil arnyn nhw, yn arbennig wrth ddethol y gwasanaethau i'w hadolygu, dadansoddi data meincnodi a chyhoeddi manylebau cenedlaethol.

Fodd bynnag, yn wahanol i'r lefelau lleol a rhanbarthol, mae'n debyg y byddai tîm canolog pwrpasol yn cael ei sefydlu oddi mewn i Asiantaeth NOMS, i gymryd at yr holl swyddogaethau hyn. Mae'n bosib y byddai hyn yn cynnwys hanner Gradd 7, un Swyddog Gweithredol Hŷn ac un Swyddog Gweithredol (y ddau'n amser llawn). Gan gyfrif am godiad o 30% mewn costau staff ar gyfer

pensiynau a chyfraniadau yswiriant cenedlaethol cyflogwyr, ac yn cynnwys treuliau am eu gwaith, cost debygol y tîm hwn fyddai tua £100,000 *y flwyddyn,* wedi ei seilio ar rychwant cyflogau cyffredinol staff y graddau hynny. Byddai costau eu gwaith (fel yr adlewyrchir yn y nifer o staff fyddai eu hangen a chostau cysylltiol) yn debygol o amrywio dros amser. Byddai angen mwy o adnoddau ar y dechrau, pan fyddai'r prosesau cychwynnol, cyfarwyddyd a data'n cael eu casglu a phan fyddai'r ardaloedd prawf angen mwy o gyfarwyddyd ar y broses. Petai yna ddilyniant o raglenni gwaith cenedlaethol tair blynedd o hyd, byddai yna gynnydd yn y costau bob tair blynedd.

Mae'n debygol y byddai yna hefyd gostau cenedlaethol nad oedd yn gostau staff yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r gyfundrefn. Rydym wedi amcangyfrif y byddai hyfforddi a gweithdai'n costio £100,000, cynhyrchu a dosbarthu llawlyfr cyfarwyddyd ar gyfer ardaloedd prawf, £25,000, cynhyrchu dogfennaeth safonol i gynorthwyo'r ardaloedd prawf, £20,000, a chostau amrywiol eraill, £50,000; mae hyn yn creu cyfanswm o £195,000.

Mae'r costau blynyddol mesuradwy felly'n cael eu hamcangyfrif i fod yn £927,000 wedi ei gyfartaleddu dros bum mlynedd, er y bydd y mwyafrif o'r costau yn y flwyddyn gyntaf, yr ail a'r drydedd. I osgoi gradd uwch o fanwl gywirdeb nag mae'r data'n ei gynnal, £930,000 yw'r amcangyfrif. Y costau sefydlu penodol fyddai £195,000 – eto, i osgoi manwl gywirdeb amhriodol, byddai £200,000 yn ffigwr mwy priodol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cynnwys y costau na ellir eu mesur.

Mae'n fwy anodd manylu ar brif **fuddiannau'r** broses Gwerth Gorau, i raddau oherwydd bod y farchnad ar gyfer gwasanaethau prawf yn dal yn newydd. Yn gyffredinol mae adolygiadau Gwerth Gorau wedi eu bwriadu i arwain at gyflenwi mwy effeithlon ac arbedion costau. Gall gwasanaethau sy'n cystadlu arwain at effeithlonrwydd. Ac mae darpariaeth gydweithredol - darparu gwasanaethau ar draws ffiniau sefydliadol - yn debygol o arwain at arbedion maint.

Dylai fframwaith a phroses Gwerth Gorau manwl hefyd gymell darparwyr (cyhoeddus, preifat neu drydydd sector) i ganolbwyntio ar gyflawni mwy o welliant yn eu perfformiad a sicrhau deilliannau gwell ar gyfer troseddwyr.

Bu cyllideb flynyddol y gwasanaeth prawf tua £860 miliwn, ac o'r arian hwn mae ymyriadau'n cynrychioli tua thraean (tua £287 miliwn). Petai bob maes sylweddol o wariant ymyrraeth yn destun i adolygiad Gwerth Gorau dros gyfnod o dair blynedd, yna byddai oddeutu £248 miliwn yn cael ei adolygu dros dair blynedd.

I bwrpasau'r Asesiad Effaith hwn yn unig, rydym wedi cymryd yn ganiataol mai'r rhaglen waith ar gyfer gwasanaethau a fyddai'n cael ei hadolygu fyddai Cyswllt Dioddefwyr ym mlwyddyn un, Gwaith Di-Dâl a Rhaglenni ym mlwyddyn dau, ac Eiddo Cymeradwy ym mlwyddyn tri. Byddai'r adolygiadau yn cychwyn ar ddechrau'r flwyddyn, heblaw ym mlwyddyn dau pan fyddai'r adolygiad cyntaf yn cychwyn ar ddechrau'r adolygiad a'r ail adolygiad yn cychwyn chwe mis i mewn i'r flwyddyn. Bydd y rhaglen waith wirioneddol yn

cael ei gosod gan Asiantaeth NOMS mewn cyswllt â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, wedi ei seilio ar ofynion Asiantaeth NOMS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac argaeledd y manylebau gwasanaeth cenedlaethol.

Mae'r gwariant blynyddol ar Gyswllt Dioddefwyr lawer yn llai na'r gwariant ar ymyraethau eraill. Petai trefn yr adolygiadau yn cael ei newid yna gallai hyn arwain at i ragor o arbedion gael eu gwireddu ynghynt. Yn yr un modd, rydym wedi cymryd yn ganiataol mai dim ond un adolygiad fyddai ym mlwyddyn un er mwyn cael amser i weithredu'r cynllun gwella perfformiad a dysgu o'r broses adolygu a'r trefniadau gweithredu. Pe byddai ail adolygiad yn cael ei gynnal ym mlwyddyn un, yna eto gallai hyn arwain at i ragor o arbedion gael eu gwireddu ynghynt. Fodd bynnag, credwn i bwrpasau'r Asesiad Effaith hwn fod ein dull yn briodol.

Ni fyddai'r arbedion yn cael eu cyflawni cyn gynted ag y byddai'r adolygiad Gwerth Gorau yn cychwyn. Rydym wedi caniatáu naw mis ar gyfer cynnal yr adolygiad Gwerth Gorau a gweithredu'r cynllun gwella perfformiad cyn bod unrhyw arbedion yn dechrau cronni. Byddai'r arbedion yn dechrau ym mis deg ar ôl cychwyn yr adolygiad Gwerth Gorau.

Petai arbedion effeithlonrwydd o 5% i Gyswllt Dioddefwyr, Gwaith Di-Dâl a Rhaglenni yn cael eu cyflawni, a 1% i Eiddo Cymeradwy, y cwbl ddeng mis ar ôl i'w Hadolygiadau Gwerth Gorau ddechrau, yna buasem yn rhagweld yr arbedion canlynol:

- Ym mlwyddyn 1, byddai tua £0.14 miliwn o arbedion yn cael eu gwneud, yn gysylltiedig â gwasanaethau a adolygwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf.

- Ym mlwyddyn 2, byddai tua £1.62 miliwn o arbedion yn cael eu gwneud, yn gysylltiedig â gwasanaethau a adolygwyd yn yr ail flwyddyn ac arbedion parhaus o'r gwasanaeth a adolygwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf.

- Ym mlwyddyn 3, byddai tua £8.25 miliwn o arbedion yn cael eu gwneud, yn gysylltiedig â gwasanaethau a adolygwyd yn y drydedd flwyddyn ac arbedion parhaus o'r gwasanaeth a adolygwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn.

- Ym Mlwyddyn 4, byddai tua £9.81 miliwn o arbedion yn cael eu gwneud, yn gysylltiedig â'r effeithlonrwydd parhaus o'r gwasanaethau a adolygwyd ym mlynyddoedd un, dau a thri.

- Ym Mlwyddyn 5, byddai tua £9.81 miliwn o arbedion yn cael eu gwneud, yn gysylltiedig â'r effeithlonrwydd parhaus o'r gwasanaethau a adolygwyd ym mlynyddoedd un, dau a thri.

Felly dros gyfnod o bum mlynedd, rydym yn rhagweld cyfanswm o arbedion cenedlaethol o £29.63 miliwn (cyfanswm o £0.14m, £1.62m, £8.25m, £9.81m a £9.81m) yn erbyn y waelodlin gychwynnol. Fodd bynnag, dim ond

amcangyfrifon yw'r rhain ar y cam hwn. **Mae hyn yn cyfateb i Werth Net Presennol o £21.3 miliwn.**

Petaem ond yn cyflawni arbediad canrannol o 1% y flwyddyn ar draws yr holl adolygiadau, byddem yn dal i gyflawni Gwerth Net Presennol (NPV) o oddeutu £1.6 miliwn.

Mae risg na fydd y buddiannau'n cronni mor gyflym ag y buasem yn ei ddisgwyl, neu y gallai costau or-redeg. Petai'r buddiannau ddim yn cronni am flwyddyn ychwanegol ar ôl i'r adolygiad gael ei gynnal, byddem yn dal i weld NPV 5 mlynedd o £12.5 miliwn. Petai'r costau'n gor-redeg, byddent angen bod oddeutu 5 gwaith gymaint ag y rhagwelir yma i gyflawni NPV negyddol. Teimlir bod y ddau senario hyn yn gwbl annhebygol.

Hefyd mae'n debygol y bydd buddiannau na ellir eu mesur - er enghraifft, gwell cyflenwi gwasanaeth a llai o aildroseddu.

Oherwydd natur y broses Gwerth Gorau mae costau yn debygol o gronni yn y cyfnodau cynnar, ond bydd buddiannau'n cael eu gwireddu dros amser. Fel gyda'r rhan fwyaf o systemau newydd o'r math yma, rydym yn disgwyl, dros amser, y bydd costau'n gostwng wrth i ardaloedd prawf a rhanbarthau a chanolfan Asiantaeth NOMS ddatblygu gweithrediad mwy effeithiol.

Opsiynau eraill

1. Gwneud dim

Byddai hyn yn golygu peidio â chael cyfundrefn effeithlonrwydd cenedlaethol ffurfiol oddi mewn i'r gwasanaeth prawf. Heb gyfundrefn effeithlonrwydd, gall ardaloedd prawf benderfynu peidio ag arloesi, lleihau costau na gwella safon y ddarpariaeth gwasanaeth. Mae ardaloedd prawf yn awr â rhyddid i weithredu mesurau effeithlonrwydd o'u dewis eu hunain. Mewn rhai achosion diweddar, mae ardaloedd prawf wedi cynnal eu hadolygiadau gwerth gorau eu hunain; fodd bynnag, hyd yma, nid oes dadansoddiad cost a budd o'r rhain.

2. **Gwerth Gorau - rôl ranbarthol ehangach**

Byddai amrywiad ar y prif gynnig yn golygu mwy o gyfranogiad ar y lefel ranbarthol. Ein prif gynnig, fel sydd eisoes wedi ei asesu, yw i Ganolfan Asiantaeth NOMS osod rhaglen waith i ddechrau, ond, dros amser, iddi ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau. Yn yr opsiwn hwn, byddai'r rhanbarthau, o'r cychwyn, yn dewis y gwasanaethau y mae eu hardaloedd prawf i'w hadolygu, yn dilyn y cyfarwyddyd a osodwyd gan ganolfan asiantaeth NOMS.

Petai'r cyfrifoldeb am ddewis y gwasanaethau i'w hadolygu yn cael ei ddatganoli i'r rhanbarthau, byddai lleihad sylweddol yn y costau canolog. Ni fyddai Canolfan Asiantaeth NOMS bellach yn gorfod gosod y rhaglen waith na dadansoddi a chyhoeddi data meincnodi. Gan mai'r rheiny yw'r tasgau canolog trymaf eu defnydd o adnoddau, byddai cryn ostyngiad yn y gwaith a chostau canolog. Byddai Canolfan Asiantaeth NOMS yn dal i gyhoeddi cyfarwyddyd ar sut i ddewis gwasanaethau i gael eu hadolygu, cyhoeddi

cyfarwyddyd mwy cyffredinol a chadw rôl lywodraethol/ arolygol gyffredinol, ond byddai hyn yn cynrychioli cyfran lawer llai o waith (ac arian) nag yn y model blaenorol.

Byddai peth o'r costau cysylltiedig yn cael ei drosglwyddo i'r rhanbarthau. Yn ei dro, mae hyn yn debygol o gael ei basio ymlaen yn nhermau prisiau uwch os yw'r gwasanaeth sy'n cael ei adolygu yn cael ei redeg gan y sector preifat neu'r trydydd sector. Byddai angen i ranbarthau yn awr ddewis y gwasanaethau i gael eu hadolygu, ond, gan y gallent alw ar y cyfarwyddyd cenedlaethol ac ar eu gwybodaeth fanwl eu hunain o amgylchiadau lleol, byddai hon yn broses llawer llai beichus a chostus nag a fyddai i'r canol. Cost fwy sylweddol i'r ardaloedd/rhanbarthau prawf fyddai dod o hyd i'r data y dylent gymharu eu hunain yn eu herbyn. Fel y disgrifir ar gyfer y gyfundrefn awdurdod lleol, gall hyn fod yn draul sylweddol. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai arbedion costau cyffredinol yn dal i gael eu gwneud.

Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'r buddiannau a wireddir gryn dipyn yn is. Byddai'r broblem a wynebir wrth addasu i system berfformiad newydd, heb gyfarwyddyd cenedlaethol yn y blynyddoedd cynnar ar sut mae ei wireddu, a gyda system orfodi llai effeithiol, yn golygu y byddai'r adolygiadau'n llai tebygol o gynhyrchu gwelliannau. Gallai gwasanaethau ymylol yn hytrach na rhai craidd gael eu hadolygu a byddai meincnodi'n fwy anodd. Fel bob amser, byddai'n anodd bod yn fanwl gywir ynghylch y buddiannau, ond byddai'r lleihad potensial mewn buddiannau'n debygol o orbwyso'r arbedion costau.

3. Gwerth Gorau -rôl ganolog ehangach

Unwaith eto, mae hyn yn amrywiad bychan ar y prif gynnig. Byddai'n golygu bod Canolfan Asiantaeth NOMS yn cadw'i holl rolau am gyfnod amhenodol. Byddai'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r rôl ganolog yn cael eu cynnal. Mae'n debyg hefyd y byddai yna leihad mewn buddiannau. Er bod angen rhywfaint o gyfeirio canolog ar y dechrau tra bod y diwylliant yn ymsefydlu, byddai ei barhad yn debygol o fod yn wrthgynhyrchiol. Mae'n debygol y byddai Gwerth Gorau'n datblygu'n broses a arweinir gan brosesau a chydymffurfiad, a byddai llai o arloesedd lleol. Byddai staff â llai o symbyliad a byddent yn cynhyrchu adolygiadau o safon is a fyddai yn ei dro'n llai tebygol o wireddu buddiannau.

Dadansoddiad cyffredinol

O astudio'r model llywodraeth leol, a'r fframwaith Gwerth Gorau arfaethedig, mae'n amlwg bod Gwerth Gorau'n broses a *all* wireddu buddiannau net sylweddol, ond dim ond *os* yw'n cael ei strwythuro'n iawn. Fel arall, gallai'r baich cynyddol a roddir ar yr ardaloedd prawf a rhanbarthau Asiantaeth NOMS greu costau goruchel a fyddai'n gorbwyso'r buddiannau.

Mae barnu'r union gostau a buddiannau'n anodd iawn, gan nad yw'r farchnad ar gyfer gwasanaethau prawf wedi ei datblygu'n llawn a bydd yn destun i amrywiaeth rhanbarthol sylweddol. Yn absenoldeb model meintiol gwell, y ffordd i sicrhau bod Gwerth Gorau'n arwain at fuddiannau net yw strwythuro'r

model fel mai dyna'r canlyniad mwyaf tebygol. Rydym felly wedi cyflwyno nifer o ddulliau i warchod rhag model sydd â chostau uchel.

i. Ffactor allweddol wrth benderfynu pa wasanaethau i'w dewis ar gyfer y rhaglen waith yw p'un a fyddai'r buddiannau'n debygol o orbwyso'r costau.

ii. Yn y cynlluniau gwella perfformiad, byddai angen i ardaloedd prawf egluro'r costau a buddiannau disgwyliedig o weithredu'r cynllun. Byddai hyn yn osgoi gweithredu cynlluniau na fyddai'n rhoi buddiannau net o gwbl. Byddai i'r cyfarwyddwyr rhanbarthol graffu ar y cynllun yn cynnig haen o sicrwydd. Byddai'r dyfarniad hwn yn cwmpasu dim ond y costau hynny sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynlluniau, nid y rhai sy'n gysylltiedig â'r broses adolygu.

iii. Wrth fonitro gweithredu'r cynllun gwella perfformiad, byddai gofyn i ardaloedd prawf ystyried nid yn unig a yw perfformiad wedi gwella, ond os yw buddiannau Gwerth Gorau wedi gorbwyso'r costau. Byddai hyn yn cyfrif am gostau trwy gydol y broses a byddai'n hysbysu adborth i'r Ganolfan Asiantaeth NOMS. Felly dylai ddylanwadu ar y ffordd mae Gwerth Gorau'n gweithredu yn y dyfodol.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r model yn osgoi rhai o'r problemau a arweiniodd ar gostau uchel ar gyfer awdurdodau lleol:

i. Ni fyddai'n rhaid i ardaloedd prawf wario llawer o arian yn dod o hyd i ddata perthnasol - byddai'n cael ei ddarparu ar eu cyfer. Erbyn y byddai mwy o gyfrifoldeb yn cael ei ddatganoli o'r canol, byddai ganddynt well syniad ble i edrych.

ii. Ni fyddai'r broses graffu/archwilio yn feichus.

iii. Ni fyddai ardaloedd prawf mewn sefyllfa lle byddai'n rhaid iddynt archwilio gormod o wasanaethau.

Dylai hyn i gyd helpu i sicrhau bod buddiannau Gwerth Gorau yn gorbwyso'r costau, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.

Ein hopsiwn dewisol ni yw'r un gaiff ei egluro dan yr adran Cynnig - cyfeiriad canolog i ddechrau, yn arwain at fwy o ddatganoli.

Asesu'r Gystadleuaeth

Mae cyflwyno Gwerth Gorau'n cymryd lle'r dangosydd perfformiad blaenorol a oedd yn gofyn i fyrddau prawf is-gontractio canran y cytunwyd arno (10% yn 2007/08) o'u busnes. Felly roedd gofynion y byddai rhyw gymaint o'r busnes yn cael ei is-gontractio er bod diffyg eglurder a chysondeb ynglŷn â'r hyn a fyddai'n cael ei is-gontractio.

Mae Gwerth Gorau yn ‘ddiduedd ei ddeilliannau’. Mae’n fwy na mecanwaith syml gwneud neu brynu ac fe’i bwriedir i wella economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, p’un a yw gwasanaethau’n cael eu cyflwyno gan y sector cyhoeddus, preifat neu’r trydydd sector. Nid yw Gwerth Gorau wedi ei fwriadu i fod yn weithdrefn sy’n cydymffurfio â’r broses. Fodd bynnag, gall cyfundrefn Gwerth Gorau greu gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau prawf heb yr angen am gystadleuaeth.

Byddai Gwerth Gorau i ddechrau’n cael ei seilio ar raglen o adolygiadau a gytunir yn genedlaethol, sy’n golygu y bydd yr un gwasanaethau yn destun i’w hadolygu yn ystod cyfnod y rhaglen. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf herio a chymharu - ymhlith pethau eraill - sut mae’r gwasanaethau’n cael eu cyflawni. Bydd y broses herio a chymharu’n arwain at ystyriaeth ddwys ynglŷn â’r defnydd o gystadleuaeth i gyflenwi’r gwelliannau gwasanaeth angenrheidiol. Dylai hyn, yn ei dro, arwain at nifer o gystadlaethau -rhai’n cynnwys cynigion gan dimau mewnol – ar gyfer y gwasanaethau sy’n cael eu hadolygu.

Yn ychwanegol, bydd disgwyl i fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf a ddynodwyd trwy adolygiadau Gwerth Gorau fel rhai sy’n arddangos perfformiad gwael - o dan drothwy’r farchnad – fod yn destun i gystadleuaeth.

Nid yw’r gyfundrefn Gwerth Gorau wedi ei bwriadu i gyfyngu’n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar y nifer na’r amrywiaeth o gyflenwyr. Byddwn yn cyflwyno manylebau cenedlaethol ar gyfer pob gwasanaeth y bydd disgwyl i bob bwrdd ac ymddiriedolaeth prawf eu cwrdd, p’un a ydynt yn dewis contractio’r gwasanaeth allan ai peidio. Dylai’r holl gyflenwyr allu cystadlu’n frwd am yr holl wasanaethau sy’n destun i gystadleuaeth.

Yn y blynyddoedd cyntaf, gall fod nifer o ffactorau sy’n cyfyngu ar y nifer o wasanaethau sy’n cael eu contractio’n allanol. Fodd bynnag, y rhain yw cynhwysedd ac awydd y cyflenwyr newydd potensial, nad ydynt yn benodol i Werth Gorau. Y cynhwysedd yw p’un a oes yna farchnad eisoes yn bodoli a gallu’r farchnad honno i gwrdd â gofynion y ddarpariaeth gwasanaethau. Yr awydd yw diddordeb y farchnad mewn cystadlu ar gyfer y gwasanaethau newydd hyn.

Byddai pob cystadleuaeth ar gyfer gwasanaethau’n cael eu rheoli yn unol ag egwyddorion strategaeth cystadleuaeth ac egwyddorion niwtraliaeth gystadleuol.

Effaith ar Sectorau Penodol

Bydd effaith uniongyrchol y cynigion hyn yn syrthio ar y sector cyhoeddus yn unig. Mae hyn yn cynnwys rôl yr ardaloedd prawf wrth gyflawni a gweithredu’r adolygiadau, ond hefyd rolau’r canol a’r rhanbarthau. Mae’r rhan fwyaf o’r gwasanaethau prawf yn cael eu darparu gan y sector cyhoeddus - byrddau ac ymddiriedolaethau prawf - a, ble maent yn cael eu his-gontractio’n allanol, y bwrdd neu ymddiriedolaeth brawf yn yr ardal a fyddai’n cynnal yr adolygiad Gwerth Gorau mewn gwirionedd.

Gellir cael effaith anuniongyrchol ar y sector annibynnol - y trydydd sector yn bennaf, sy'n dueddol o dderbyn contractau gwasanaeth prawf a gaiff eu gosod yn allanol. Byddai ardaloedd prawf yn disgwyl i unrhyw is-gontractwr gyfranogi a chyfrannu at yr adolygiadau. Gallent wneud hynny, er enghraifft, trwy ofynion yn y contractau newydd a Chytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA). Ble mae contractau ac SLAs eisoes yn bodoli, byddai darparwyr yn cael eu hannog i ddilyn y fframwaith er mwyn dangos yn dryloyw eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd mewn perthynas â darparwyr eraill ac â'r farchnad ehangach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o fod yn faich trwm, ac ni fyddai'n sylweddol wahanol i'r oblygiadau sydd gan isgontractwyr ar hyn o bryd - er enghraifft, wrth ddarparu gwybodaeth.

Gall Gwerth Gorau arwain at gystadleuaeth i'r gwasanaethau prawf. Gallai hyn gynnig manteision i ddarparwyr nad ydynt yn fyrddau ac ymddiriedolaethau prawf, a allai gael cyfleoedd newydd i gystadlu am wasanaethau, ond anfanteision hefyd, gan y gallai fod cystadleuaeth am y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar hyn o bryd. Os yw gwasanaeth yn cael ei gystadlu fel mae'n bodoli ar hyn o bryd, byddai gwerth, maint a chymhlethdod y gwasanaeth yn golygu y byddai'n anodd i sefydliadau bychain gystadlu a chynnig y gwasanaethau hyn fel cynigydd unigol.

Yn ystod arolwg Gwerth Gorau dylai bwrdd neu ymddiriedolaeth Gwerth Gorau herio a chymharu sut y gallai gwasanaethu gael eu cyflwyno'n fwy effeithiol. Er mwyn cyflwyno gwasanaeth mwy effeithiol, efallai y byddai'n fwy priodol cynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaeth arbenigol mewn partneriaeth, yn hytrach na defnyddio cyflenwr unigol ar gyfer y gwasanaeth cyfan. Gallai hyn gynnig cyfleoedd i sefydliadau bychain gystadlu am y gwasanaethau arbenigol hyn.

Rydym wedi cydweithio sawl tro gyda sefydliadau'r trydydd sector drwy gydol datblygiad Gwerth Gorau.

Profion Effaith Benodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos i ba raddau rydych wedi ystyried effeithiau potensial eich opsiynau polisi.

Sicrhewch fod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar y dadansoddiad cost a budd yn cael eu cynnwys yn y brif dystiolaeth; gall canlyniadau eraill gael eu hatodi.

Math o brofi a gynhaliwyd	*Canlyniadau yn y Sail Dystiolaeth?*	*Canlyniadau wedi'u hatodi?*
Asesiad o'r Gystadleuaeth	Oes	Na
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bychain	Oes	Na
Cymorth Cyfreithiol	Na	Na
Datblygiad Cynaliadwy	Na	Na
Asesu Carbon	Na	Na
Amgylchedd Arall	Na	Na
Asesiad Effaith ar Iechyd	Na	Na
Cydraddoldeb Hil	Oes	Oes
Cydraddoldeb ar sail Anabledd	Oes	Oes
Cydraddoldeb ar sail Rhyw	Oes	Oes
Hawliau Dynol	Na	Na
Profi Gwledig	Na	Na

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
National Offender Management Service

Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

FFURFLEN ASESU EFFAITH CYDRADDOLDEB

Rhan 2 – Asesiad Llawn

1. Swyddog(ion) a'r Uned sy'n gyfrifol am gwblhau'r asesiad:

Jon Neville - Strategaeth Troseddwyr

2. Enw'r polisi, strategaeth, swyddogaeth neu brosiect

Gwerth Gorau yn y Gwasanaeth Prawf

3. Yn Rhan 1 (Sgrinio Cychwynnol), pa grŵp amrywiol a ddynodwyd fel un dan anfantais gan y polisi / strategaeth/ swyddogaeth/ cynigion y prosiect?

☐ Oed

☐ Anabledd

☐ Ffydd/ Cred

☐ Rhyw

☐ Hil

☐ Cyfeiriadedd Rhywiol

☐ Hunaniaeth Rhyw

4. Crynhowch yr effaith negyddol i bob grŵp:

Nid yw'r asesiad sgrinio cychwynnol wedi dynodi unrhyw effaith negyddol ar y grwpiau amrywiol hyn. Nid oes dim o'r ymchwil a gynhaliwyd wedi awgrymu y bydd y polisi Gwerth Gorau (naill ai'r fframwaith i'r adolygiadau na'r adolygiadau eu hunain) yn cael effaith negyddol ar y grwpiau amrywiol hyn. Fodd bynnag, gan fod Adolygiadau Gwerth Gorau fel rheol yn arwain at newidiadau mewn cyflenwi gwasanaethau, p'un a ydynt ar ffurf diwygiadau gan ddarparwr i'w ymarfer ei hun neu o ganlyniad i gystadleuaeth, meddyliwyd y gallai'r gweithredoedd dilynol gael effaith ar y grwpiau hyn. Felly mae angen datblygu asesiad effaith cydraddoldeb llawn.

Rhaid cwblhau'r ddau gwestiwn nesaf, ond dim ond ar ôl ymgynghoriad ac i ymchwil perthnasol angenrheidiol gael ei gynnal i hysbysu'r ymateb a roddir.

5. Pa ymgynghoriad blaenorol sydd wedi digwydd neu a fydd yn digwydd gyda phob grŵp amrywiol yr effeithir arno naill ai'n allanol neu'n fewnol?

(NODWCH OS GWELWCH YN DDA: dylid cynnwys undebau llafur, cymdeithasau staff a staff yn y broses ymgynghori)

Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, Asiantaeth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) a mannau eraill mewn Llywodraeth, ar y cynnig polisi. O ganlyniad, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol rhwng Ebrill a Gorffennaf 2008. Gwahoddwyd bron i 150 o sefydliadau i ymateb, ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector, undebau llafur gwasanaeth prawf, cymdeithasau staff a grwpiau defnyddwyr cydraddoldeb.

6. Pa ddeunydd ymchwil perthnasol a data ansoddol a meintiol a gafwyd? Rhestrwch os gwelwch yn dda:

Gan fod Gwerth Gorau yn fecanwaith newydd i'w ddefnyddio oddi mewn i'r gwasanaeth prawf, roedd y deunyddiau oedd ar gael ar ei effeithiau tebygol yn gyfyngedig. Fodd bynnag, rydym wedi ymchwilio i gyfundrefn gwerth gorau mewn llywodraeth leol, sydd wedi cynorthwyo i hysbysu'r polisi hwn. Ymgynghorwyd â nifer o ddogfennau'n ymwneud â chyfundrefn gwerth gorau llywodraeth leol. Y rhain yw fel a ganlyn:

- 'Improving Public Services: Evaluation of the Best Value Pilot Programme Final report' – Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Prifysgol Warwick – Ionawr 2001.
- 'Use of Local Performance Indicators in the Best Value Regime – Final Report' – Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau – Rhagfyr 2001.
- 'Best Value and the Two-Tier Workforce in Local Government' – Best Value Intelligence Unit, UNISON – Ionawr 2002.
- 'Cydraddoldeb ac amrywiaeth' – Y Comisiwn Archwilio – Mai 2002.
- 'Local authorities' experience of carrying out DTLR Best Value surveys – A report for the Office of the Deputy Prime Minister by Quantitative Methods Applied to Surveys at the

Office for National Statistics' – gol. O. Rowlands, Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, Hydref 2002.

- 'Guidance on Equalities, Best Value, Community Planning and Power of Well-Being' – Medi 2003 [cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol yr Alban ar gyfundrefn Gwerth Gorau llywodraeth yr Alban] – Medi 2003
- 'Local Government Act 1999: Part 1 - Best Value and Performance Improvement' – Cylchlythyr a ryddhawyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 03/2003 – Mawrth 2003 (a'r Adendwm i Atodiad 2 C – Rhagfyr 2003).
- Cyfarwyddyd yn ymwneud â Gwerth Gorau a'r Safon Cydraddoldeb i Lywodraeth Leol, Asiantaeth Gwella a Datblygu Llywodraeth Leol, gwefan IdEA.
- 'Social Issues in Purchasing' – Swyddfa Masnach y Llywodraeth
- 'Procurement and the Anabledd Equality Duty' – Comisiwn Hawliau Anabledd
- 'Implications of the Disabled Equality Duty for Public Procurement and the management of Public Sector Contracts' – Rhwydwaith Staff Anabl Cenedlaethol.

7. Pa wybodaeth wnaeth yr ymgynghoriad ddarparu ynghylch effaith negyddol y polisi/ strategaeth/ swyddogaeth neu gynigion prosiect?

Cynorthwyodd cynrychiolwyr o amrediad o grwpiau amrywiol i lunio'r cynnig yn ystod y cam cychwynnol o'i ddatblygiad, er mwyn sicrhau fod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u plannu yn y Fframwaith Gwerth Gorau. Cynigiwyd y mesurau canlynol:

1. Dylai'r manylebau gwasanaeth cenedlaethol mae NOMS yn eu cyhoeddi i'r rhai sy'n cynnal Adolygiadau Gwerth Gorau ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth.
2. Dylai ymgynghoriad oddi mewn i'r broses adolygu Gwerth Gorau gynnwys yr holl grwpiau rhanddeiliaid perthnasol, er mwyn sicrhau fod yr holl faterion amrywiaeth yn cael eu hystyried.
3. Pan, yn ystod y broses adolygu Gwerth Gorau, fod ardaloedd prawf yn cymharu eu perfformiad gyda'u cyfoedion, dylent geisio dysgu o'r modd mae darparwyr eraill yn ymdrin â materion amrywiaeth.
4. Yn ystod y cam herio o'r adolygiadau Gwerth Gorau, dylai darparwyr dalu sylw arbennig i sicrhau nad yw eu hymdrechion i gyflawni Gwerth Gorau yn effeithio'n andwyol ar amrywiaeth.
5. Dylai cynlluniau gwella perfformiad gynnwys asesiad effaith cydraddoldeb, a fydd yn sicrhau fod unrhyw newid mawr mewn gwasanaeth, yn cynnwys contractio'n allanol, yn cymryd i ystyriaeth faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Wrth graffu ar y cynlluniau gwella perfformiad, dylai cyfarwyddwyr rhanbarthol wirio bod hyn wedi ei wneud.

Rhoddwyd prawf ar y mesurau hyn yn ystod yr ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol 12-wythnos ac roeddent, at ei gilydd, yn derbyn cefnogaeth yr ymatebwyr. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth y gallai sefydliadau bychain fod dan anfantais pan fo proses gystadleuol yn digwydd yn dilyn adolygiad gwerth gorau. Mynegwyd pryderon gan grwpiau yn enwedig yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol na fyddent yn medru cystadlu ar sail gyfartal gyda sefydliadau mwy a mynegwyd y farn fod angen rhoi camau yn eu lle i ddiogelu yn erbyn hyn.

Yn ychwanegol, gwnaeth yr ymatebwyr yr argymhellion canlynol yn ystod y broses ymgynghori:

- Dylai materion cydraddoldeb ac amrywiaeth fod yn rhan ymhlyg o bob agwedd ar gyflenwi gwasanaeth, ac nid ar gyfer eu cynnwys mewn cynlluniau gwella perfformiad yn unig.
- Dylai'r holl fanylebau gwasanaeth cenedlaethol, nid yn unig y rhai a dybir sy'n berthnasol, gynnwys gofynion ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Dylid cyfeirio a datgan yn glir y ddeddfwriaeth cydraddoldeb ym mhob mater Gwerth Gorau er mwyn osgoi herio posib yn gyfreithiol ac/ neu o safbwynt enw da.
- Dylai mecanweithiau effeithiol fod yn eu lle i sicrhau fod grwpiau anodd eu cyrraedd yn medru cyfrannu at y drafodaeth ar faterion amrywiaeth sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau gwella.
- Er mwyn osgoi gorbwyso "ymgynghoriad gyda grwpiau lleiafrifol" dylid darparu eglurhad o'r hyn a olygir gan 'ymgynghoriad gyda grwpiau rhanddeiliaid perthnasol'
- Dylid ymgorffori datganiad, yn unol â chefnogaeth y Llywodraeth i faterion cymdeithasol, sy'n datgan nad yw Gwerth Gorau yn golygu, ac na ddylai olygu, y 'rhataf'.
- Pan fo maes gwasanaeth prawf yn methu'n amlwg â chwrdd ei ofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth yna dylid defnyddio hyn fel maen prawf ar gyfer cystadlu buan o'r gwasanaeth.
- Os yw cynllun cenedlaethol yn cael ei fabwysiadu, yna dylid cynnal ymgynghoriad generig ac asesiadau effaith yn genedlaethol.

Bydd angen ystyried y pwyntiau hyn wrth fynd â'r cynnig hwn ymlaen.

8. Pa newidiadau ydych chi'n bwriadu gwneud i'r polisi/ strategaeth/ swyddogaeth neu brosiect o ganlyniad i'r ymchwil ac/neu'r ymgynghoriad?

Rydym yn ddiolchgar dros ben am y sylwadau a wnaethpwyd ar agweddau cydraddoldeb ac amrywiaeth o'r Fframwaith Gwerth Gorau.

Mae'r Fframwaith Gwerth Gorau yn ei gwneud yn ofynnol i ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth gael eu gwneud yn briodol drwy gydol y broses Gwerth Gorau. Rydym yn cytuno y dylid cynnwys y materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a godwyd yn y cyfarwyddyd Gwerth Gorau er mwyn sicrhau fod ymgysylltiad priodol gyda phob grŵp defnyddwyr cydraddoldeb.

9. A fydd y newidiadau arfaethedig i'r polisi/strategaeth/swyddogaeth neu brosiect:

☐ leihau'r effaith negyddol? Neu

☐ sicrhau fod yr effaith negyddol yn gyfreithlon dan ddeddfwriaeth wrth-wahaniaethol?

(nodwch os gwelwch yn dda: os dewisir yr ateb hwn, rhaid rhoi tystiolaeth ynglŷn â'r cyngor cyfreithiol a geisiwyd er mwyn cefnogi'r farn hon)

X rhoi cyfle i hyrwyddo cyfartaledd cyfle a gwella'r berthynas rhwng grwpiau amrywiol?

10. Pa systemau monitro/ gwerthuso/ adolygu cydraddoldeb sydd wedi eu rhoi yn eu lle i sicrhau y cynhelir gwiriadau rheolaidd ynglŷn ag effeithiau'r polisi/ strategaeth/ swyddogaeth neu gynigion prosiect? Rhowch fanylion:

Bydd yr ymrwymiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu plannu drwy'r fframwaith cyfan.

Bydd y cyfarwyddyd ar Werth Gorau a baratowyd gan Asiantaeth NOMS yn cynnwys cyngor ar ymdrin â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Yn ystod y broses Gwerth Gorau, dylai ymgynghoriad gynnwys yr holl grwpiau defnyddwyr cydraddoldeb perthnasol, a dylai'r gymhariaeth o berfformiad gyda byrddau ac ymddiriedolaethau prawf a rhanddeiliaid eraill gynnwys dysgu am y modd maent wedi ymdrin â materion cydraddoldeb, ac yn ystod y cyfnod herio, dylai byrddau ac ymddiriedolaethau prawf ystyried nad yw'r opsiwn cyflenwi mwyaf effeithiol bob amser yr un mwyaf effeithiol i'r holl ddefnyddwyr.

Bydd cyfarwyddwyr rhanbarthol fel rhan o'r ystyriaeth o'r cynlluniau gwella perfformiad a gyflwynir gan y byrddau ac ymddiriedolaethau prawf yn sicrhau fod asesiad effaith cydraddoldeb wedi ei gwblhau, os yn briodol.

11. Pryd fydd y polisi/ strategaeth/ swyddogaeth neu gynigion prosiect yn cael eu hadolygu?

Bydd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Asiantaeth NOMS yn cynnal adolygiad o Werth Gorau. Bydd yr adolygiad yn digwydd ar ôl y flwyddyn ariannol gyflawn gyntaf y bu Gwerth Gorau yn weithredol.

Dyddiad y cwblhawyd: 16 Medi 2008

Llofnodwyd gan Reolwr Uned neu Gyfarwyddwr: David Griffiths

Dyddiad y cymeradwywyd gan yr uwch reolwyr: 19 Medi 2008

Rhaid cyhoeddi copi o'r asesiad effaith cydraddoldeb llawn hwn ynghyd â'r polisi/ strategaeth/ swyddogaeth/ amlinelliad prosiect. Rhaid i'r Uned/ Adran gadw copi wedi'i lofnodi i bwrpas archwiliad.

SICRHAU MYNEDIAD AT WYBODAETH

Sut fyddwch chi'n sicrhau fod y wybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer yr EIA hwn ar gael yn rhwydd yn y dyfodol? (N.B. Bydd angen i chi gynnwys hyn yn eich cynllun gweithredol)
Bydd y ddogfen sy'n crynhoi'r ymatebion i Werth Gorau yn yr ymgynghoriad gwasanaeth prawf yn cael ei chyhoeddi ar wefan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd yn agored i'r cyhoedd. Bydd yr ymatebion unigol i Werth Gorau yn yr ymgynghoriad gwasanaeth prawf yn cael eu cadw ar ffeil, yn electronig a phan fo ar gael, ar ffurf papur.

Sut fyddwch chi'n sicrhau fod eich rhanddeiliaid yn parhau i fod yn gysylltiedig/ ymwneud â ffurfio datblygiad/ cyflenwad y polisi/strategaeth/swyddogaeth/ prosiect hwn? (N.B. Bydd angen i chi gynnwys hyn yn eich cynllun gweithredol)
Bydd Asiantaeth NOMS yn ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod datblygiad cyfarwyddyd Gwerth Gorau a fydd yn diffinio'r broses fanwl ar gyfer cynnal Adolygiadau Gwerth Gorau.

Sut fyddwch chi'n monitro'r gweithredoedd sydd eu hangen i sicrhau fod y polisi/ strategaeth/ swyddogaeth neu brosiect yn cyflenwi'r ymrwymiadau cydraddoldeb sydd eu hangen? (N.B. Bydd angen i chi gynnwys hyn yn eich cynllun gweithredol)
Bydd y Byrddau ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Prawf yn rhoi adborth i Asiantaeth NOMS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar sut i wella Gwerth Gorau. Bydd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Asiantaeth NOMS yn cynnal adolygiad i fesur effaith Gwerth Gorau. Bydd yr adborth a'r adolygiadau yn digwydd ar ôl y flwyddyn ariannol gyflawn gyntaf y bu Gwerth Gorau yn weithredol. Bydd y cyfarwyddwyr rhanbarthol yn asesu'r asesiadau effaith cydraddoldeb sydd wedi'u paratoi gan y Byrddau ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Prawf yn ystod y broses adolygu Gwerth Gorau er mwyn sicrhau fod materion cydraddoldeb wedi'u hystyried gydag unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflenwad gwasanaeth.

CYNLLUN GWEITHREDOL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Maes Effaith negyddol	Newidiadau arfaethedig	Cyfrifoldeb	Dangosyddion llwyddiant	Dyddiad targed	Cynnydd hyd yma?
Casglu Data					
Trefniadau Cyhoeddi					
Trefniadau Monitro ac Adolygu					
Rhestrwch newidiadau arfaethedig eraill					

Nor 18

Manylion Cyswllt y Cydlynydd Ymgynghoriad

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori yn hytrach na'r pynciau a drafodir yma, dylech gysylltu â Gabrielle Kann, Cydlynydd Ymgynghoriad Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar 020 7210 1326, (neu o 12 Rhagfyr ar 020 3334 4496) neu yrru ebost i consultation@justice.gsi.gov.uk.

Fel arall, efallai yr hoffech ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Gabrielle Kann
Consultation Co-ordinator
Ministry of Justice
5th Floor Selborne House
54-60 Victoria Street
London
SW1E 6QW

O **12 Rhagfyr 2008** mae'r cyfeiriad yn newid i:

Gabrielle Kann
Consultation Co-ordinator
Ministry of Justice
7th Floor
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Nodwch os gwelwch yn dda bod y cyfeiriad ebost yn parhau'r un fath ar ôl 12 Rhagfyr 2008 (consultation@justice.gsi.gov.uk).

Os yw eich cwynion neu sylwadau yn cyfeirio at bwnc a drafodir yn y papur hwn yn hytrach na'r broses ymgynghori, os gwelwch yn dda cyfeiriwch nhw at y cyswllt a roddir ar dudalen 3.

Y meini prawf ymgynghori

Mae'r saith maen prawf ymgynghori fel a ganlyn:

1. **Pryd i ymgynghori** – dylai ymgynghoriadau ffurfiol gael eu cynnal ar gyfnod pan fo sgôp i ddylanwadu ar ddeilliant polisi.

2. **Hyd yr ymarferion ymgynghori** – dylai ymgynghoriadau barhau fel rheol am o leiaf 12 wythnos, gydag ystyriaeth yn cael ei rhoi i amserlenni hirach pan fo'n ddichonadwy a synhwyrol.

3. **Eglurder sgôp ac effaith** – dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynghylch y broses ymgynghori, yr hyn a gynigir, y sgôp i ddylanwadu a chostau a buddiannau disgwyliedig y cynigion.

4. **Hygyrchedd yr ymarferion ymgynghori** – dylai ymarferion ymgynghori gael eu dylunio i fod yn hygyrch i, ac wedi'u targedu glir at, y bobl hynny y bwriedir i'r ymarfer eu cyrraedd.

5. **Baich yr ymgynghoriad** - mae cadw baich yr ymgynghoriad i'r lleiaf bosib yn hanfodol os yw bod yn effeithiol ac os yw ymgynghorai am 'brynu i mewn' i'r broses.

6. **Ymatebolrwydd yr ymarferion ymgynghori** – dylid dadansoddi ymatebion yr ymgynghoriad yn ofalus a darparu adborth clir i gyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.

7. **Cynhwysedd i ymgynghori** – dylai swyddogion geisio cael cyfarwyddyd ynglŷn â'r modd o gynnal ymarferiad ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn maent wedi ei ddysgu o'r profiad.

Rhaid i'r meini prawf hyn gael eu hatgynhyrchu oddi mewn i bob dogfen ymgynghori.

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Accenture

ACEVO

Addaction

Action Housing and Support Ltd

Canolfan Anne Peaker

Y Comisiwn Archwilio

Bury Primary Care Trust

Swyddfa'r Cabinet – Tasglu Eithrio Cymdeithasol

CBI

CLINKS

Cyngor Barnwyr Cylchdaith EM

Derbyshire Probation Service

Devon and Cornwall Probation Service Area

Dorset Probation Service Area

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Prawf Dyfed Powys

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Foundation Housing

Freddy Crabbe - Hampshire

Futurebuilders England

Gloucestershire Probation Service Area

Bwrdd Gwasanaeth Prawf Gwent

G4S

Hampshire Probation Service Area

Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf EM

Humberside Probation Service Trust

JHM Associates (MK) Ltd

Cymdeithas Clercod yr Ynadon

Kent Probation Service

LankellyChase Foundation

Leicestershire and Rutland Probation Service Trust

Cymdeithas yr Ynadon

Merseyside Probation Service Trust

Metropolitan Police

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

NACRO

NAPO

NAPO - Greater London

Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Rhwydwaith Staff Anabl Cenedlaethol

Network for Caring

Northamptonshire Probation Service Board

North West Probation Service Region

North Yorkshire Probation Service Board

Peacepals

Ymddiriedolaeth y Tywysog

PROUD Network

Cymdeithas Gwasanaeth Prawf

PS Plus

RAINER

Reliance Secure Task Management

RSOU – Midland region

Serco

Skills for Justice

Southampton City Council

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Prawf De Cymru

South West Probation Service

South Yorkshire Probation Service

Social Enterprise Coalition

SOVA

Staffordshire Probation Service Area

Suffolk Probation Service Area

Sussex Probation Service Area

TMS Insight

Turning Point

Cymorth i Ddioddefwyr

Swyddfa Archwlio Cymru

Warwickshire Probation Service Board

West Midlands Probation Service Board

West Yorkshire Probation Service Board

Wiltshire Probation Service Board

Yorkshire and Humberside Probation Service Region

Yorkshire and Humberside Probation Service Region's Partnership Board

Yorkshire and Humberside Regional Offender Manager

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae fersiynau fformat amgen o'r adroddiad hwn ar gael ar gais o
020 7035 4930 neu bestvalueconsultation@justice.gsi.gov.uk